

Gwerslyfrau Cyngor Ysgolion Sul Cymru

CYFRES GOLAU AR Y GAIR

Jeremeia:

Proffwyd mewn twll

Deunydd Ysgol Sul
i rai rhwng 3 a 14 oed

Testun: Sarah Morris

Lluniau: Dawn Wilks

Cyhoeddwyd gan
Cyngor Ysgolion Sul Cymru



Cyfres Golau ar y Gair - llyfrau yn y gyfres:

Porthi'r Pum Mil	Iesu'r Meddyg
Gideon - yn ymladd dros Dduw	Dafydd: bugail a brenin
Y Nadolig	Elias: negesydd Duw
Teulu Newydd Ruth	Nadolig: Goleuni'r Byd
Moses - Y Dywysoges a'r Baban	Jona: Proffwyd Anfodlon
Pasg – Iesu'r Brenin	Iesu'n croesawu pawb
Samuel – Duw yn siarad â Samuel	Y Pasg: y daith fawr
Pentecost – Newyddion Da lawn	Jeremeia: proffwyd mewn twll
Daniel – yn ffau'r Llewod	Paul: yn cyfarfod Iesu
Damhegion Iesu - Cyfrinachau'r Deyrnas	Moses: Y Deg Gorchymyn
Dechrau'r byd: Hanes y Creu	Iesu: y Ffrind Gorau
Iesu'n dangos ei allu	Solomon: y brenin doeth
Joseff yn yr Aifft	Ffrindiau Iesu: rhannu'r newyddion da
Y Nadolig: Rhodd Duw	Nadolig: O'r nef y daeth
Iesu: Ffrind mewn angen	Josua: yr arweinydd newydd
Moses: Gadael yr Aifft	Iesu'r athro da
Y Pasg: trwy lygaid Pedr	Y Pasg: "Gorffennwyd"
Abraham: ffrind Duw	Esther: y frenhines ddewr
Ysbryd Duw ar waith: Dechrau'r Eglwys	Pentecost: yr Ysbryd Glân yn dod
Y Beibl: Stori Fawr Duw	Dafydd: bardd a brenin (Salmau)

Jeremeia: Proffwyd mewn twll © Cyhoeddiadau'r Gair 2010

Testun: Sarah Morris
Darluniau gan Dawn Wilks
Cynllun y clawr: Ynyr Roberts
Golygydd Cyffredinol / Cysodi: Aled Davies

ISBN 1 85994 xxx
Argraffwyd yng Nghymru gan Finline, Rhuthun.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir copïo y deunydd hwn mewn unrhyw ffordd oni cheir caniatâd y cyhoeddwr, heblaw lle rhoddir caniatâd i atgynhyrchu taflenni gwaith yn ôl y gofyn ar gyfer defnydd yn yr ysgol Sul.

Cyhoeddwyd gan:
Cyhoeddiadau'r Gair, Cyngor Ysgolion Sul Cymru,
Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

Rhoddir caniatâd a rhyddid i lungopïo deunyddiau gweledol a thudalennau gweithgaredd ar gyfer eu defnyddio mewn dosbarth yn unig. Gofynnwn fod pob person sy'n defnyddio y llyfr ar gyfer dysgu yn prynu ei gopi ei hun. Mae copïo a rhannu heb awdurdod yn waharddedig.

Cyflwyniad i'r gyfres

Pan sefydlwyd Cyngor Ysgolion Sul fel menter gydenwadol ddeugain mlynedd yn ôl, y nod o'r cychwyn cyntaf oedd darparu adnoddau a gwerslyfrau addas i blant, ieuenctid ac oedolion Cymru. Dros y blynyddoedd cyhoeddwyd cyfresi o werslyfrau, megis Cyfres y Gair, Gyda'n Gilydd, ac Ar y Ffordd. Bu i lawer o'r deunydd yma gael ei gyfieithu o'r Saesneg, gan edrych i gyfeiriad Eglwys yr Alban, Scripture Union, NCEC a TnT Ministries. Bu cyfieithu erioed yn ateb delfrydol nac yn hawdd, gan bod cyd-destun yr Ysgol Sul yng Nghymru mor wahanol. Wrth gyflwyno'r gyfres newydd hon i'ch sylw, rydym yn falch o ddweud bod hon yn gyfres gwbl wreiddiol, wedi codi o lawr gwlad, ar gyfer y sefyllfa Gymreig. Mae gan Gyngor Ysgolion Sul banel gwerslyfrau cydenwadol, gydag aelodau profiadol ymysg gweinidogaethu i blant, ac mae'r grŵp hwn yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod y maes llafur a chynnwys y llyfrau. Mae'r gwersi yn cael eu paratoi gan Sarah Morris, a chanddi hithau hefyd blynyddoedd lawer o brofiad o weithio gyda phlant mewn ysgolion Sul a chlybiau plant yng nghylch Llansannan. Hyderwn felly y bydd y gyfres hon yn gymeradwy gan ein hysgolion Sul, ac yn fodd i arfogi athrawon wrth gyflwyno gwersi o Sul i Sul.

Yr hyn a geir yma yw gwerslyfr athro ar stori neu thema arbennig, a bydd llyfr newydd yn cael ei gyhoeddi bob mis. Un llyfr sydd ei angen gan bod y deunydd plant ac ieuenctid yn gynwysiedig fel taflenni ac atodiadau i'w llungopïo. O fewn pob llyfr ceir:

Cynllun gwersi ar gyfer plant meithrin i 5 oed

Ceir yma amrywiaeth o syniadau o dan y penawdau Amser Chwarae, Amser Stori, Amser Creadigol ac Amser Canu a Gweddïo. Yn ychwanegol i hyn, ceir detholiad o daflenni gwaith i'w llungopïo.

Cynllun gwersi ar gyfer plant 6-11 oed

Ceir yma ddewis eang o weithgareddau arbennig i rai rhwng 6-8 oed a 8-11 oed. Nodir amcanion clir ar gyfer pob gwersi, gyda ffyrdd gwahanol o gyflwyno a dysgu'r stori, syniadau crefft, cwis, gemau, drama, gweddïau a deunydd defosiwn. Ceir hefyd dewis o daflenni gwaith ar gyfer y ddau grŵp oed gwahanol.

Cynllun gwersi ar gyfer rhai rhwng 11-14 oed

Ceir yma dri thema yn deillio o'r stori, gydag amrywiaeth o syniadau creadigol a diddorol, a chyfle hefyd i drafod a sgwrsio.

Atodiadau a deunydd ychwanegol

Ceir nifer o atodiadau hefyd, yn cynnig syniadau ychwanegol a deunydd gweledol. Ar y CD sy'n dod gyda'r llyfr, mae yna ddetholiad ychwanegol o daflenni, rhai yn arbennig gyda phwyslais addysgol, ar gyfer y sefyllfaoedd hynny lle mae'r stori yn cael ei datblygu yn yr ysgol leol. Rhestrir yn y llyfr hefyd rhai adnoddau ychwanegol e.e. llyfr stori ar y thema neu ddeunydd gweledol a chrefft. Cofiwch hefyd bod pob un o'r storïau hyn i'w cael ar ffurf fideo, fel rhan o'r gyfres Beibl Fideo.

Gwasanaeth Teuluol

Paratowyd gwasanaeth teuluol hefyd ar gyfer bob uned, a gobeithio bydd hyn o gymorth i ddod â bwrlwm yr ysgol Sul i mewn i fywyd yr eglwys, gan greu cymuned sy'n dysgu ac addoli gyda'i gilydd.

Cofiwch gysylltu os am gymorth neu gyngor gyda'r deunydd. *Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul*



Cyflwyniad i'r athro: Jeremeia

"Wyt ti isio'r newyddion da neu'r newyddion drwg yn gyntaf?' Sawl gwaith glywsoch chi'r cwestiwn yna? Beth oedd eich dewis – y newyddion da neu'r newyddion drwg? Mae'n anodd dewis mewn gwirionedd yn tydi? Roedd gan y proffwyd Jeremeia lawer o newyddion drwg i'w gyhoeddi wrth bobl Dduw. Ond roedd ganddo newyddion da hefyd, newyddion heb ei ail, i ddweud y gwir. Roedd Jeremeia'n byw yn nheyrnas Jwda tua 2,600 o flynyddoedd yn ôl. Cafodd ei alw i fod yn broffwyd yn 626 C.C. ac yntau'n ddyn ifanc 20 oed, a pharhaodd ei weinidogaeth drwy deyrnasiad 5 brenin olaf Jwda.

Yn yr Hen Destament, mae'r berthynas rhwng Duw a'i bobl yn cael ei bortreadu o bryd i'w gilydd fel 'priodas'. Mae cyfamod yn bodoli rhyngddynt - cyfamod a gafodd ei sefydlu yn gyntaf rhwng Duw ac Abraham, a chafodd ei gadarnhau gydag Isaac, Jacob, Joseff a Moses. Ond roedd pobl Dduw yn anffyddlon iddo, yn troi oddi wrth addoli'r Duw byw at ddelwau'r paganiaid. Mae'r boen a'r siom mae Duw yn ei dioddef yn ddyfnach hyd yn oed na'r boen y mae gŵr yn ei brofi wrth ddarganfod bod ei wraig wedi bod yn anffyddlon.

Eto, mae Duw am roi cyfle i'w bobl edifarhau a throï'n ôl ato, ac mae'n barod i faddau a'u derbyn yn ôl. Er i Dduw rybuddio'r bobl bod amseroedd caled o'u blaenau os na fyddent yn gwrando, parhau i fyw â'u cefnau wedi eu troi at Dduw yw eu hanes. Mae proffwydoliaethau Jeremeia'n cael eu gwireddu wrth i fyddin Babilon goncro Jerwsalem, dinistrio'r Deml a chipio nifer helaeth o'r boblogaeth. Ond roedd gan Jeremeia newyddion da i'w gyhoeddi hefyd. Gwelodd amser yn dod pan fyddai Duw yn casglu'r alltudion yn ôl i wlad yr addewid i brofi llwyddiant a bendith Duw unwaith eto, ac ar yr amser hwnnw, gwneir Cyfamod Newydd rhwng Duw a'i bobl. Yng nghanol yr addewidion, mae'r addewid am Frenin Cyfiawn o linach Dafydd, a fydd yn teyrnasu mewn cyfiawnder ac yn dod â heddwch, nid yn unig i'r Iddewon, ond i drigolion yr holl ddaear - neb llai na Iesu, Mab Duw, y *Meseia*.

Byddwn yn treulio amser yn astudio tri hanes am Jeremeia gyda'r plant oed cynradd: galwad Jeremeia, Gair Duw yn cael ei losgi a'i anwybyddu gan y Brenin Jehoiacim, a hanes Jeremeia'n cael ei daflu i bydew am gyhoeddi Gair Duw. Er bod Jeremeia'n cael amser caled mae'n parhau i gyhoeddi Gair Duw i'r bobl ystyfnig ac anffyddlon.

Mae'r Gwasanaeth Teuluol yn canolbwyntio ar y newyddion da oedd gan Jeremeia, bod bwriadau Duw ar gyfer ei bobl yn rhai da a thrugarog. Cawn ein hatgoffa o addewidion Iesu i'w 'ddefaid' yn loan 10, y byddai ef yn eu dal yn ei ddwylo yn ddiogel am byth. Diolch i Dduw am y 'newyddion da!'

Diolch yn fawr i Derek Rees am baratoi gwersi'r bobl ifanc.


Rhestr Adnoddau

Llyfrau stori

Pam fod Jeremeia'n Drist

Pris £0.95

Cyhoeddiadau'r Gair



Hanes Jeremeia: Beiblau Lliw

'Y Beibl i Blant' - hanesion 195-201

Beibl Lliw y Plant, tud. 158

Beibl Newydd y Plant, tud. 92

Beibl Newydd y storiwr, tud. 70

Y Beibl Graffig: Hanes Jeremeia



Oed Meithrin – 5

Jeremeia: Llyfr Jeremeia



Amcanion

- ❖ I gyflwyno Jeremeia y proffwyd, negesydd Duw
- ❖ I gyflwyno'r Beibl, Gair Duw i ni
- ❖ I weld pa ymateb gafodd neges Jeremeia

AMSER CHWARAE

1. Gêm soch, soch

Bydd angen sgarff i'w defnyddio fel mwgwd.

Gosodwch y plant i eistedd ar gadeiriau mewn siâp cylch. Gofynnwch iddynt ba sŵn mae gwahanol anifeiliaid yn ei wneud. Gwahoddwch y plant yn eu tro i wneud sŵn anifail. Yna, gwahoddwch un o'r plant mwyaf hyderus i wisgo'r sgarff o amgylch ei llygaid a cheisio dyfalu pwy sy'n gwneud y sŵn nesaf. Esboniwch wrth bawb eich bod am bwyntio at **un** person i wneud y sŵn nesaf - efallai yr hoffech ddweud sŵn pa anifail sydd angen ei wneud. Ydy'r plentyn sy'n gwisgo'r sgarff yn medru dyfalu pwy sy'n gwneud y sŵn? Ar ôl i'r plentyn ddyfalu'n gywir, gallwch wahodd plentyn arall i wisgo'r sgarff a cheisio dyfalu. Trafodwch sut yr ydym yn adnabod lleisiau ein ffrindiau a'n teulu yn dda. Trafodwch sut yr ydym yn ateb y ffôn ac yn gwybod pwy sydd yno ar ôl clywed y person yn siarad. Esboniwch y byddwn yn clywed hanes rhywun yn clywed Duw'n siarad, a beth wnaeth y dyn hwnnw wedyn.

2. Teganau swnllyd

Bydd angen amrywiaeth o deganau sy'n gwneud sŵn.

Dangoswch y teganau i'r plant a'u gwahodd i ddod o hyd i'r synau maent yn eu creu. Yna, gofynnwch i'r plant i gau eu llygaid tra byddwch yn chwarae sŵn un o'r teganau. Pwy sy'n gwybod pa degan wnaeth y sŵn? Chwaraewch y gêm nes bod pob tegan wedi cael eu defnyddio. Efallai yr hoffech wahodd

y plant yn eu tro i wneud y sŵn tra bo'r lleill yn gwranddo ac yn dyfalu. Os bydd y plant yn cael trafferth i gau eu llygaid, gellwch eu gwahodd i droi am eiliad tra bod y sŵn yn cael ei wneud!

Trafodwch sut yr ydym yn clywed llawer o wahanol synau bod dydd, rhai sy'n gyfarwydd i ni a rhai eraill nad ydynt mor hawdd eu hadnabod.

Yn ein stori wir o'r Beibl heddiw byddwn yn clywed am Jeremeia, dyn a oedd yn clywed Duw'n siarad ag ef. Roedd Jeremeia'n adnabod llais Duw yn dda iawn a chafodd negeseuon pwysig gan Dduw.

3. Cario neges

Bydd angen dis a phapurau 'negeseuon', e.e. 'dewch o hyd i 3 creon coch', 'ewch i nôl y bin', 'ewch i nôl fy mag', 'dywedwch 'bore da' wrth bawb' - bydd angen o leiaf un neges ar gyfer bob plentyn.

Gosodwch y negeseuon rywle yn yr ystafell o fewn cyrraedd y plant.

Gwahoddwch y plant i gymryd tro i daflu'r dis. Os byddant yn taflu'r rhif 'un', maent yn cael tro i nôl neges, ac ar ôl i chi ei darllen, dylai'r plentyn gyflawni'r dasg. Ar ôl i bawb gael tro i nôl neges, trafodwch yr adegau pan fyddwn yn derbyn negeseuon, e.e. yn yr Ysgol Feithrin bydd Anti..... yn dweud ei bod hi'n amser clirio; yn yr Ysgol fydd y gloch yn



AMSER CHWARAE

canu i ddweud ei bod hi'n amser mynd adref; adref, bydd mam a dad yn ein galw pan fydd cinio'n barod neu os oes rhaglen arbennig ar y teledu.

Yn ein stori wir o'r Beibl heddiw byddwn yn clywed am Jeremeia, dyn a gafodd sawl neges gan Dduw.

4. Chwarae 'Tip'

Gwahoddwch y plant i sgipio o amgylch yr ystafell ac i aros yn hollol lonydd pan fyddant yn eich clywed yn curo'ch dwylo tair gwaith. Ar ôl gwneud tair gwaith, gofynnwch iddynt neidio o amgylch, ac unwaith eto i aros yn lonydd pan fyddant yn eich clywed yn curo'ch dwylo. Ar ôl tair gwaith, gofynnwch iddynt i 'hedfan' fel pili pala nes eu bod yn eich clywed yn clapio. Yna, gwahoddwch y plant i sgipio o amgylch nes eich bod yn eu cyffwrdd. Wrth i chi gyffwrdd â'r plant dywedwch 'Tip' (neu 'Tag', gan ddibynnu beth yw enw'r gêm yn eich rhan chi o'r byd!) wrthynt. Mae'r plentyn sy'n cael ei 'Tipio/Tagio' yn gorfod aros yn hollol lonydd nes bod pawb arall wedi cael eu 'Tipio/Tagio.'

I orffen y gêm, dewiswch un o'r plant, gyda chymorth oedolyn, i fod yn 'achubwr.' Esboniwch mai rôl yr 'achubwr' yw rhyddhau unrhyw un sydd wedi cael eu 'Tipio/Tagio.' Bydd yr 'achubwr' yn rhyddhau'r plant trwy gyffwrdd ag ysgwydd plentyn a dweud y gair 'rhydd' wrthynt.

Chwaraewch am gyfnod cyn newid yr 'achubwr' am un arall. Mae'r gêm hon yn arwain at hanes Jeremeia'n cael ei ryddhau o'r pydew gan Ebedmelech.

AMSER STORI

1. Neges i Jeremeia gan Dduw (Jeremeia 1)

Bydd angen model o Jeremeia. Defnyddiwch y llun o Jeremeia o Atodiad 1, wedi'i dorri allan, a'i liwio a'i ludo ar ddarn o rolyn cardfwrdd.

Dangoswch y model o Jeremeia i'r plant, ac adroddwch yr hanes yn eich geiriau eich hun. Y prif bwyntiau i'w cyflwyno yw'r rhain:

- ❖ Roedd pobl Dduw wedi anghofio amdano. Doedden nhw ddim yn siarad gyda Duw, doedden nhw ddim yn mynd i gapel i weddio ac i glywed amdano.
- ❖ Roedd pobl Dduw yn gwneud pob math o bethau drwg – gallwch ofyn i'r plant pa bethau drwg y mae pobl yn eu gwneud – yn dweud celwyddau, yn gas i'w gilydd, yn dwyn, ddim yn edrych ar ôl pobl dlawd, ddim yn gwrandao ar Dduw.
- ❖ Siaradodd Duw â Jeremeia. Dywedodd wrtho am roi neges i'r bobl.
- ❖ Roedd Duw yn gweld popeth drwg roedd y bobl yn ei wneud
- ❖ Roedd Duw yn flin ac yn drist
- ❖ Roedd pethau drwg iawn yn mynd i ddigwydd iddynt os na fydden nhw'n dweud 'sori' wrth Dduw a dechrau bod yn dda.
- ❖ Roedd Jeremeia'n meddwl ei fod yn rhy ifanc i fynd â'r neges i'r bobl
- ❖ Sicraodd Duw Jeremeia y byddai'n derbyn nerth Duw i fynd â'r neges, byddai Duw gydag ef, yn ei gadw'n ddiogel ac yn ei helpu i wybod beth yn union i'w ddweud.
- ❖ Y rheswm am ddanfôn Jeremeia at y bobl gyda'r negeseuon oedd bod Duw yn caru ei bobl gymaint. Nid oedd Duw am iddynt fod yn ddrwg, yn anghofio amdano a ddim yn talu sylw iddo. Roedd Duw am i'r bobl ei garu'n ôl a bod yn bobl dda a charedig.



AMSER STORI

2. Mynd â'r neges at y Brenin (Jeremeia 36)

Bydd angen y model o Jeremeia o'r wers flaenorol a hefyd y modelau o'r Brenin a Baruch o Atodiad 1, wedi'u paratoi'n barod. Hefyd, sgrôl, wedi'i gwneud o rolyn o bapur sydd â phob pen iddo wedi'u tapio i bensel.

Dangoswch y model o Jeremeia a'i ddefnyddio i adolygu'r hanes. Adroddwch hanes Baruch yn mynd â'r neges at y Brenin Jehoiacim yn eich geiriau eich hun, gan ddefnyddio'r modelau a'r sgrôl. Y prif bwyntiau i'w cyflwyno ydy:

❖ Dywedodd Duw wrth Jeremeia am ysgrifennu'r negeseuon ar sgrôl er mwyn i'r bobl glywed beth fyddai'n digwydd os na fyddent stopio bod yn ddrwg a gofyn i Dduw i faddau iddynt.

❖ Galwodd Jeremeia ar Baruch, a ddaeth i ysgrifennu popeth ddywedodd Jeremeia. *Cewch ysgrifennu'r brawddegau canlynol ar eich sgrôl: peidiwch ag anghofio Duw, dywedwch 'sori' am y pethau drwg yr ydych yn eu gwneud, cofiwch garu Duw, cofiwch siarad gydag ef....*

❖ Aeth Baruch â'r sgrôl i'r Deml – (enw'r Capel yn amser Jeremeia) i'w ddarllen.

❖ Clywodd rhai o weision y Brenin, Baruch yn darllen neges Duw. Danfonodd y Brenin am Baruch –roedd am glywed neges Duw hefyd.

❖ Doedd y Brenin ddim am wrando ar neges Dduw, felly taflodd y sgrôl, mewn darnau bach, i mewn i'r tân. *Torrwch y sgrôl o flaen y plant.*

❖ Nid oedd y Brenin yn teimlo'n sori o gwbl, nid oedd am garu Duw na gwrandu arno a doedd e ddim am i'r bobl glywed y neges chwaith!

❖ Siaradodd Duw gyda Jeremeia eto. Roedd yn rhaid i Baruch ysgrifennu'r neges unwaith eto, ar sgrôl arall.

❖ Roedd Duw wedi rhoi cyfle i'r Brenin i glywed pa mor flin a thrist yr oedd o weld ei bobl yn gwneud yr holl bethau drwg. Nawr, roedd Duw'n rhybuddio pawb y byddai pethau drwg yn digwydd oherwydd nad oeddent yn gwrandu arno.

Cofiwch drafod gyda'r plant pa mor ffôl oedd y Brenin am beidio â chymryd sylw o neges Duw a pha mor gariadus oedd Duw yn rhoi cyfle i'r bobl droi'n ôl ato.

3. Jeremeia mewn twll! (Jeremeia 38)

Bydd angen y modelau o Jeremeia ac Ebedmelech o Atodiad 1. Hefyd, 'pydew' wedi'i greu gyda sribed o gerdyn; darnau o bapur brown (mwd) a darn o gortyn.

Dangoswch y modelau o'r wers flaenorol i adolygu'r hanes hyd yn hyn. Ydy'r plant yn cofio pam fod Duw yn danfon negeseuon at y bobl? Beth wnaeth y Brenin gyda'r sgrôl? Beth wnaeth Jeremeia a Baruch wedyn?

Adroddwch hanes pennod 38 yn eich geiriau eich hun. Dyma'r prif bwyntiau:

❖ Roedd Duw wedi dweud wrth Jeremeia bod milwyr o wlad arall ar y ffordd. Byddai'r milwyr yn malu cartrefi pobl Dduw ac yn cymryd rhai o'r bobl ymaith.

❖ Unwaith eto, clywodd weision y Brenin yr hyn yr oedd Jeremeia'n ei ddweud wrth y bobl ac aethant at y Brenin.

❖ Rhoddodd y brenin ganiatâd iddyn nhw wneud unrhyw beth i gadw Jeremeia'n dawel.

❖ Taflwyd Jeremeia i bydew gwag – doedd dim dŵr ynndo, dim ond mwd!

❖ Clywodd Ebedmelech, un arall o swyddogion y brenin am hyn, a gofynnodd am gael achub Jeremeia o'r pydew cyn iddo lwggu.

❖ Aeth Ebedmelech at y pydew gyda rhaff (y cortyn), a chododd Jeremeia allan o'r mwd.

❖ Roedd Jeremeia'n cofio'r hyn a ddywedodd Duw wrtho, ac roedd yn gwybod bod Duw'n gofalu amdano, hyd yn oed yn y pydew.

Cofiwch atgoffa'r plant bod Duw yn gofalu amdany'n nhw hefyd. Mae'n rhoi rhieni, neiniau a theidiau, ffrindiau ac athrawon i edrych ar ein holau ac i'n helpu.



AMSER CREADIGOL

1. Negeseuon gan Dduw

Bydd angen cerdyn coch siâp calon ar gyfer bob plentyn, tyllwr, edafedd lliwgar, tâp selo.

Bydd angen paratoi'r calonnau ymlaen llaw, trwy osod tyllau ar ymyl pob calon. Hefyd, i dorri darnau o edafedd a rhoi darn o dâp selo ar un pen fel y bydd yn haws ei wthio drwy'r tyllau.

Ysgrifennwch y neges "Mae Duw yn fy ngharu" yng nghanol pob calon.

Dangoswch y cardiau i'r plant gan ddweud mai dyma un o'r negeseuon pwysicaf y byddant yn ei chlywed – byth.

Tapiwch y pen o'r edafedd sydd heb dâp selo ar gefn y cerdyn cyn cynorthwyo'r plant i 'bwytho'r' cardiau ac i 'ddarllen' y neges sydd arno.

2. Poster â neges

Bydd angen darn mawr o bapur gyda neges syml yn ei ganol ac offer i'w addurno.

Dyma rhai enghreifftiau:

- ❖ 'Mae Duw yn ein caru' - gyda phob plentyn yn creu wyneb o blât papur i ludo o'i amgylch
- ❖ 'Mae Duw'n gofalu am yr adar – mae'n gofalu amdanom ni' – gyda phob plentyn yn addurno siâp aderyn i osod ar y poster
- ❖ 'Paid â phoeni - mae Duw gyda ni' – gyda phob plentyn yn torri siâp llaw allan a'u haddurno gyda sgleiniau.

3. Creu sgrôl

Bydd angen dau rолyn cardfwrdd, sribed o bapur, y lluniau o Atodiad 2 (i bob plentyn) glud a thâp selo.

Rhowch y lluniau i'r plant i'w lliwio a'u torri allan.

Gludwch y lluniau ar y sribed o bapur. Tapiwch un pen o'r sribed i un rholyn a phen arall y sribed i'r rholyn arall. Rholiwch y ddau ben i'r canol i greu 'sgrôl.' Anogwch y plant i agor eu sgroliau a 'darllen' y stori.

4. Model o Jeremeia yn y pydew

Bydd angen copi o daflen 3 ar gerdyn i bob plentyn (wedi'u torri allan yn barod). Hefyd, darnau o bapur neu ddefnydd brown (mwd), darn o gortyn, tâp selo, pensiliau lliw.

Cynorthwywch y plant i liwio'r llun o Jeremeia a'r pydew. Wrth weithio, cofiwch holi'r plant am yr hanes a'u hatgoffa o'r neges bwysig gafodd Jeremeia gan Dduw ar gyfer y bobl. Beth oedd ymateb y Brenin a rhai o'i weision? Tapiwch ddau ben y pydew at ei gilydd a gosodwch Jeremeia y tu mewn. I orffen, tapiwch y cortyn ar ymyl y pydew ac atgoffwch y plant sut y bu i Ebedmelech ddod i achub Jeremeia drwy ei godi gyda rhaff.



Oed Meithrin – 5 Jeremeia: Llyfr Jeremeia

AMSER CANU A GWEDDÏO

Diolch am y Beibl

Bydd angen llythyr mewn amlen ac amrywiaeth o Feiblau Plant a Beiblau eraill.

Treuliwch amser yn edrych arnynt cyn atgoffa'r plant fod y Beibl yn llyfr arbennig iawn. Mae geiriau Duw yn y Beibl - dyma sut mae Duw yn siarad â ni. Mae'n debyg i dderbyn llythyr. *Tynnwch y llythyr o'r amlen.* Mae'r llythyr yma gan ac yn y llythyr mae yn siarad gyda mi. Er nad wyf yn clywed yn siarad, dyma yw ei geiriau hi i mi. Yn y Beibl mae gennym eiriau Duw, negeseuon gan Dduw.

Casglwch yr holl Feiblau i un ochr oni bai am un. Daliwch y Beibl yma a dywedwch "Diolch Dduw am y Beibl." Pasiwch y Beibl i bob plentyn yn eu tro a'u hannog i ail adrodd y weddi o ddiolch ar eich hôl.

Pan yn ofnus....

Trafodwch gyda'r plant yr achlysuron hynny pan fyddant yn ofnus. Atgoffwch y plant am yr adegau yn hanes Jeremeia pan fyddai ef wedi bod yn ofnus, e.e. yn rhannu neges Duw gyda'r Brenin, tra yn y pydew tywyll, mwdlyd. Roedd Duw wedi dweud wrth Jeremeia y byddai ef gyda Jeremeia drwy'r amser, felly doedd dim angen iddo boeni.

Gweddiwch dros bob un o'r plant gan gyfeirio yn ôl at eu hatebion, e.e. diolch Dduw am Wil. Plis helpa Wil i beidio â bod ofn wrth glywed sŵn y taranau.

Rhigwm bysedd

Adroddwch y rhigwm unwaith i ddangos y symudiadau i'r plant, cyn eu gwahodd i'ch copïo. *Mae'r symudiadau wedi eu 'italeiddio'.*

Dyma'r Brenin, a'i goron ar ei ben (*dal dwylo at ei gilydd gyda'r bysedd ar wahân i greu siâp coron*).

Dyma'r dynion, nad oedd yn hoffi clywed neges Jeremeia gan Dduw (*agor dwylo ac ysgwyd y bysedd*).

Tafllwyd Jeremeia i bydew dwfn lle doedd neb yn medru ei glywed yn gweiddi (*plethu'r bysedd gyda'r bodiau wedi'u cuddio tu mewn*).

Diolch Dduw am Ededmelech a ddaeth i dynnu Jeremeia allan o'r mwd (*codi un bawd – Ebedmelech, a'r bawd arall - Jeremeia, a'u hysgwyd*).

Cân: I'r dôn – 'The Farmer's in his den'

Y Beibl yw Gair Duw
Y Beibl yw Gair Duw
Mae'n sôn am gariad Duw, y Tad
Y Beibl yw Gair Duw

Y Beibl yw Gair Duw
Y Beibl yw Gair Duw
Rwyf wrth fy modd yn darllen hwn
Y Beibl yw Gair Duw

Y Beibl yw Gair Duw
Y Beibl yw Gair Duw
Rwyf wrth fy modd yn dysgu hwn
Y Beibl yw Gair Duw

AMSERLEN

Wythnos 1:

Amser Chwarae 1 neu 2; Stori 1; Crefft 1 neu 2; Gweddi.

Wythnos 2:

Amser Chwarae 3; Stori 2; Crefft 3; Cân.


Wythnos 3:

Amser chwarae 4; Stori 3; Crefft 4; Rhigwm.

Mae Duw wedi rhoi'r Beibl i ni. Trwy ddarllen y Beibl byddwn yn dysgu am Dduw.



Taflen 1 Jeremeia: Llyfr Jeremeia




Torrwch y lluniau o hanesion Beiblaidd sydd ar gael ar y Gdd allan a'u gludo ar y Beibl.



Taflen 2 Jeremeia: Llyfr Jeremeia



Cysylltwch y dotiau i weld pa neges sydd ar y sgrôl.





Taflen 3 Jeremeia: Llyfr Jeremeia

Beth am greu model o Jeremeia yn y pydew?
Pwy oedd yn gofalu amdano drwy'r amser?
Pwy ddaeth i'w helpu?



Bydd angen gwneud llungopi ar gerdyn ar gyfer pob plentyn a thorri'r darnau o flaen llaw.



Oed 6 - 11

Jeremeia: Llyfr Jeremeia



Amcanion

- ❖ I gyflwyno Jeremeia, a rôl y proffwyd
- ❖ I ystyried anffyddlondeb pobl Dduw a'r canlyniadau
- ❖ I weld ymateb pobl Dduw i neges Jeremeia

Cân i'r gyfres

'Ers cyn bo co' (Y Cyntaf a'r Olaf) *Curiad 2008*

Adnod i'r gyfres (Jeremeia 29, adnod 11)

Myfi sy'n gwybod fy mwriadu a drefnaf ar eich cyfer, bwriadau o heddwch, nid niwed, i roi ichwi ddyfodol gobeithiol.

FFYRDD I GYFLWYNO'R THEMA

1. Beth welwch chi?

Bydd angen bwrdd gwyn a phinnau pwrpasol neu ddarnau o bapur a phinnau ffelt.

Mae'r gêm hon wedi'i selio ar y gêm deledu 'Catchphrase.' Nod y gêm yw bod y plant yn dyfalu pa ymadrodd sy'n cael ei gyfeirio ato wrth weld rhywun yn tynnu llun o'r geiriau, e.e. er mwyn cyfleu'r ymadrodd 'amser gwely', gallwch dynnu llun cloc (= amser) a llun gwely. Nid yw'r person sy'n tynnu'r lluniau yn cael siarad o gwbl ond mae'r plant yn cael dyfalu trwy gydol yr amser mae'r person yn tynnu llun. Gosodwch amser penodol ar gyfer pob rownd. Dyma rai syniadau, mae'n bosibl y bydd gennych rai ychwanegol: pêl droed, llyncu mul, mor dywyll â bol buwch, bwrw hen wragedd â ffyn.

Esboniwch fod ein hanes gwir o'r Beibl heddiw am broffwyd o'r enw Jeremeia. Dangosodd Duw ddau ddarlun iddo; roedd y darluniau'n dangos beth fyddai'n digwydd i bobl Dduw yn y dyfodol.

2. Beth welwch chi? 2

Defnyddiwch y lluniau sydd yn Atodiad 3.

Dangoswch un llun ar y tro i'r plant gan eu hannog i ddweud beth a welant yn y llun. Esboniwch fod ein hanes gwir o'r Beibl heddiw am broffwyd o'r enw Jeremeia. Dangosodd Duw ddarluniau iddo neu 'weledigaethau', ac roedd y darluniau'n dangos beth fyddai'n digwydd i bobl Dduw yn y dyfodol.

3. Amser i newid

Bydd angen y Llinyn Amser.

Dewch o hyd i enw Jeremeia ar y llinyn amser a gofynnwch i un o'r plant i ddarllen y brawddegau. Esboniwch fod Jeremeia'n ceisio cael pobl Dduw i newid, oherwydd maent yn anufudd i Dduw ac yn gwneud pob math o bethau drwg, ond nid yw'r bobl am wrando arno.



FFYRDD I GYFLWYNO'R THEMA

Dewiswch un o'r plant i fod yn 'Jeremeia', ac i sefyll wrth wal, gyda'i g/chefn tuag at y plant eraill.

Mae'r plant eraill yn esgus bod yn bobl Dduw, yn meimio gwneud pethau drwg. Mae 'Jeremeia' yn troi'n sydyn, heb rybudd, ac yn gweiddi, "Mae Duw am i chi newid eich ffyrdd." Mae pawb yn rhewi, ond mae pwy bynnag y mae Jeremeia'n ei gweld yn symud allan o'r gêm.

4. Pasio'r neges ymlaen

Bydd angen Atodiad 5, gyda'r adnodau wedi torri i ddarnau fel y dangosir.

Mae'r adnodau'n cynnwys un o'r negeseuon gafodd Eseia i'w rhannu ac un o'r negeseuon gafodd Jeremeia.

Rhannwch y plant yn ddau dîm: tîm Jeremeia a thîm Eseia. Esboniwch mai proffwyd oedd Eseia hefyd, yn dod â negeseuon gan Dduw i bobl Dduw. Nod y gêm yw casglu'r darnau o'r neges a'u pasio i aelodau eraill o'r tîm er mwyn ffurfio'r neges gyflawn.

Gosodwch y negeseuon ar wahân ar un pen o'r ystafell a'r timoedd mewn rhes y pen arall. Mae'r aelod cyntaf yn rhedeg/sgipio/hercian at y negeseuon a chodi un darn cyn dychwelyd at ei d/thîm. Mae'r darn yn cael ei basio ar hyd y rhes at yr aelod olaf yn y rhes a fydd wedyn yn gosod y darn i lawr ac yna'n rhedeg/sgipio/hercian i nôl y darn nesaf o'r neges.

Y tîm cyntaf i greu'r neges gyflawn sy'n ennill y gêm. Cynorthwywch y ddau dîm i ddarllen y negeseuon a gwnewch yn siŵr fod y plant yn deall ystyr y negeseuon.

Atgoffwch y plant am rôl bwysig y proffwydi, yn dod â negeseuon gan Dduw. Yn aml yn yr Hen Destament cawn hanesion am bobl Dduw yn anghofio amdano, yn addoli eilunod a gwneud pob math o ddrygioni. Roedd Duw yn amyneddgar iawn gyda nhw, yn danfon negeseuon a rhybuddio'r bobl i droi'n ôl ato. Ond yn aml iawn, nid oedd pobl Dduw yn cymryd sylw o'r hyn a ddywedai'r proffwydi!

5. Beth yw'r canlyniad?

Chwaraewch y gêm 'Dec y Llong' i ddangos bod canlyniadau yn dilyn ein geiriau: yn achos y gêm, mae pobl yn clywed y cyfarwyddiadau ac yn ceisio bod y cyntaf i ufuddhau; yn achos Jeremeia, clywodd swyddogion y Brenin neges Jeremeia, a'i daflu i'r pydew!

Mae'r plant yn sefyll mewn rhes, un tu ôl y llall, yng nghanol yr ystafell - dyma'r "dec canol." Mae'r wal i'r chwith yn cael ei alw'n "dec uchaf" a'r wal i'r dde yn "dec isaf." Mae angen un person i fod yn "gaptin." Mae'r captin yn sefyll o flaen y "morwyr" ac yn galw cyfarwyddiadau. Pan mae'r captin yn galw "dec uchaf" mae'r morwyr yn rhedeg at y dec uchaf ayyb. Bydd yr olaf i gyrraedd allan o'r gêm nes bod y captin yn galw "mae'r captin yn dod", yna bydd rhaid i bawb redeg yn ôl i'r dec canol a saliwio'r captin, sydd yn cerdded ar hyd y rhes yn cynnal "archwiliad" o'i griw. Gallwch ychwanegu cyfarwyddiadau eraill, megis 'dringo'r rhaffau', 'sgwrio'r dec', 'storm' neu beth bynnag mae'r plant yn eu hawgrymu.



FFYRDD I GYFLWYNO'R STORI

1. Duw yn galw Jeremeia (Jeremeia 1)

Bydd angen y lluniau o Atodiad 4, y llinyn amser, a 'Beibl Lliw y Plant'.

Treuliwch amser yn chwilio am bobl ar y llinyn amser gan ofyn i'r plant i ddod o hyd i rai penodol, e.e. rhywun a adeiladodd gwch; rhywun a oedd yn byw mewn pabell, rhywun a welodd Iesu ar y groes, rhywun a oedd yn canu'r delyn. Ar ôl iddynt ddod o hyd i'r cymeriad, gofynnwch i'r plant beth maent yn ei gofio amdanynt.

Gofynnwch i'r plant i chwilio am yr enw 'Jeremeia' ac i ddarllen y brawddegau o dan ei enw.

Darllenwch yr hanes o 'Beibl Lliw y Plant' (hanner cyntaf tudalen 158 yn unig, at y frawddeg 'Fe fydda i gyda thi').

Yna, dangoswch lun y goeden almon. Mae'r gair am 'almon' yn debyg iawn i'r gair am 'wyllo' yn Hebraeg – iaith Jeremeia. Roedd y darlun yma'n golygu bod Duw yn gwyllo ei bobl ac yn bwriadu gwneud rhywbeth am yr holl ddrygioni yr oedd yn ei weld.

Trowch at dudalen 142 a dangoswch lun y duw Baal i'r plant, ac i dudalen 156 i weld llun Astoreth, duwies arall yr oedd pobl Dduw wedi dechrau ei haddoli.

Gwelodd Duw fod y rhan fwyaf o'i bobl yn addoli'r un delwau a phobl eraill oedd yn byw o'u cwmpas; nad oeddent yn mynd i'r Deml i'w addoli; roeddent yn cam-drin pobl dlawd ac anghenus yn y gymdeithas; roeddent yn gelwyddog, yn gas, yn hunanol, heb dalu sylw i Dduw nac i eiriau Duw.

Nesaf, dangoswch y llun o'r crochan yn berwi ar y tân.

Dyma'r ail ddarlun gafodd Jeremeia gan Dduw. Mae'r darlun yma'n golygu fod cosb ar fin dod ar bobl Dduw o gyfeiriad y Gogledd (mae'r crochan yn gogwyddo o gyfeiriad y Gogledd). Mae Duw'n egluro wrth Jeremeia y bydd byddin yn dod o'r Gogledd i ymosod ar Jerwsalem, i goncro'r ddinas ac i gymryd llawer o'r bobl i ffwrdd mewn cadwynau.

Tynnwch sylw'r plant at ymateb Jeremeia, trwy ddarllen y paragraff cyntaf unwaith eto i'w hatgoffa.

Beth ddywedodd Jeremeia wrth Dduw? 'Dwi'n rhy ifanc a dydw i'n gwybod dim.'

Beth oedd ymateb Duw? 'Paid ag ofni. Rydw i gyda thi... Rydw i wedi rhoi geiriau yn dy geg di.'

Mae Taflen 4 yn addas ar gyfer y wers hon yn arbennig.

2. Mynd â'r neges at y Brenin Jehoiacim (Jeremeia 36)

Bydd angen paratoi sgrôl ymlaen llaw, sy'n ddigon mawr i gymryd y lluniau o Atodiad 2. Byddwch yn defnyddio'r sgrôl i adrodd yr hanes. Hefyd, bydd angen Beiblau a'r lluniau o wers un – y goeden almon a'r crochan.

Dangoswch y sgrôl i'r plant a gofynnwch iddynt a oes ganddynt syniad beth ydyw. Esboniwch wrth y plant y byddai pobl ers talwm, yng nghyfnod Jeremeia, wedi ysgrifennu ar ddarnau hir o bapyrus (dail) neu groen anifail, cyn i bapur gael ei ddyfeisio.



FFYRDD I GYFLWYNO'R STORI

Agorwch y sgrôl i ddangos y llun cyntaf, *Jeremeia yn dweud wrth Baruch beth i ysgrifennu*. Esboniwch sut y bu i Dduw siarad gyda Jeremeia a dweud wrtho am ysgrifennu popeth yr oedd wedi ei ddweud ar sgrôl. Adroddwch Jeremeia 36: 1-8 yn eich geiriau eich hun.

Llun 2, *Baruch yn darllen y sgrôl yn y deml gyda swyddogion y Brenin yn gwrando*. Eto, adroddwch gynnwys adnodau 9-12, 16-19.

Llun 3, *un o'r swyddogion yn darllen y sgrôl i'r Brenin, a'r Brenin yn llosgi'r sgrôl*. Adroddwch adnodau 20-24.

Llun 4, *Baruch yn ysgrifennu am yr eilwaith o dan gyfarwyddid Jeremeia*.

Gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r plant:

Pam losgodd y Brenin sgrôl Baruch?

Oedd hi'n syniad da i geisio anwybyddu Gair Duw?

Edrychwch ar y llun cyntaf eto. Beth oedd ymateb Jeremeia pan siaradodd Duw ag ef? *Roedd yn ufudd i Air Duw*.

Edrychwch ar y ail lun. Beth oedd ymateb y swyddogion pan glywsant y neges gan Dduw? *Roeddent yn ofnus wrth glywed beth oedd Duw yn bwriadu ei wneud; h.y. roeddent yn credu'r neges*.

Edrychwch ar y trydydd llun. Beth oedd ymateb y Brenin?

Pa ymateb ydy'r un callaf?

Adroddwch hanes wrth y plant am sefyllfa pan gawsoch/roesochoch rybudd i beidio â gwneud rhywbeth penodol a pham.

Roedd Duw yn rhybuddio'r bobl, drwy Jeremeia, am yr hyn a fyddai'n digwydd os na fyddent yn stopio bod yn ddrwg a gofyn am faddeuant ganddo. Yn anffodus, doedd y Brenin, na phobl Dduw yn fodlon gwrando ar y rhybudd. Ydy'r plant yn cofio beth ddywedodd Duw fyddai'n digwydd? Dangoswch y ddau lun o'r wers flaenorol i atgoffa'r plant o weledigaeth gyntaf Jeremeia, sef 'byddin y Babiloniaid yn dod o'r Gogledd'. Rhwch Feibl i bawb a gofynnwch iddynt agor y Beibl yn rhywle. Beth sydd yn y Beibl? Derbyniwch atebion y plant cyn eu cynorthwyo i droi at Salm 119, adnod 11. *Os agorir y Beibl yn y canol, dylech fod o gwmpas llyfr y Salmau*.

Mae'r salmydd yn dweud bod geiriau Duw yn ein cadw rhag pechu. Sut? Trwy ddod â ni i wybod beth sydd yn y Beibl, rydym yn dod i wybod beth sy'n plesio Duw a beth sydd ddim – beth sy'n dda a beth sy'n bechod. Dywedodd Duw wrth ei bobl, trwy Jeremeia, beth oedd eu pechod. Ydy'r plant yn cofio am yr eilun addoliad? Beth ddylai ymateb y bobl fod i hyn?

Beth amdanom ni? Wrth inni glywed beth sydd gan Dduw i'w ddweud wrthym, ydyn ni'n debyg i Jeremeia, yn gwrando ac yn ufudd i Dduw? Neu, ydyn ni'n debyg i'r Brenin Jehoiacim a phobl Dduw, yn gwrthod gwrando a phenderfynu anwybyddu geiriau Duw? Byddai'n syniad gweddio gyda'r plant, gan gyffesu'r adegau hynny nad ydym wedi bod yn awyddus i wrando ar Dduw, gan ofyn am faddeuant, a gofyn am gymorth yr Ysbryd Glân i ddeall y Beibl.



FFYRDD I GYFLWYNO'R STORI

3. Jeremeia mewn twll! (Jeremeia 38)

Bydd angen y llinyn amser, a'r lluniau o Atodiad 1.

Dechreuwch drwy sgwrsio am adegau pan mae'n anodd siarad am Dduw gyda rhywun arall. Trafodwch y gwahanol ymatebion a gawn ni gan bobl - chwerthin arnom, dweud ein bod yn wirion, ein hanwybyddu, dweud anwiredd amdanom. Efallai yr hoffech rannu stori bersonol gyda'r plant.

Gofynnwch i'r plant i ddod o hyd i Moses, Paul, Daniel a Iesu ar y llinyn amser. Ydyn nhw'n cofio sut y bu'r cymeriadau hyn yn siarad dros Dduw? Beth oedd y canlyniadau iddyn nhw?

Yn ein hanes heddiw, byddwn yn darganfod beth ddigwyddodd i Jeremeia pan siaradodd ef ar ran Duw. *Dangoswch y lluniau o Atodiad 1 pan yn berthnasol.*

Jeremeia 38:1-3. Adroddwch hanes yr adnodau yn eich geiriau eich hun (mae'r dynion sy'n cael eu henwi yn adnod 1 yn arweinwyr byddin Jwda). Gofynnwch i'r plant i ddychmygu eu bod yn aelodau o'r fyddin, yn paratoi i ymladd yn erbyn byddin Babilon sydd ar y ffordd i ymosod ar Jerwsalem. Sut fydden nhw wedi ymateb i eiriau Jeremeia?

Jeremeia 38: 4-6. Eto, adroddwch yr hanes yn eich geiriau eich hun. Gofynnwch i'r plant i ddychmygu mai nhw yw Jeremeia, i lawr yn y pydew tywyll, oer, drewllyd. Pa feddyliau oedd gan Jeremeia tybed? Atgoffwch y plant am addewid Duw iddo yn Jeremeia 1:8.

Jeremeia 38:7-10. Ar ôl adrodd yr hanes yn eich geiriau eich hun, esboniwch ei bod hi'n amlwg bod y brenin Sedeceia'n ddryslyd erbyn hyn! Roedd wedi rhoi caniatâd i'r milwyr

i roi Jeremeia yn y carchar, ond bellach mae'n dweud wrth Ebedmelech am ei ryddhau. Gofynnwch i'r plant i ddychmygu sut deimladau oedd gan y brenin a pham mae'n ymateb fel hyn?

Jeremeia 38: 11-13. Adroddwch yr hanes yn eich geiriau eich hun, cyn gofyn i'r plant i feddwl pam fod Ebedmelech am helpu Jeremeia? Sut oedd y ddau'n teimlo ar ôl cael Jeremeia'n rhydd o'r pydew? Tybed beth fyddai Jeremeia'n ei wneud nesaf – a fyddai'n dal yn fodlon cario negeseuon Duw, neu a fyddai'n penderfynu cadw'n dawel o hyn ymlaen?

Edrychwch eto ar y llinyn amser. Gofynnwch i'r plant i sefyll wrth gymeriad a oedd wedi siarad dros Dduw, a gofynnwch iddynt ddweud gweddi syml o ddiolch am fywyd y cymeriad hwnnw, e.e. 'Diolch Dduw am Noa a oedd yn fodlon adeiladu'r arch er bod pawb yn meddwl ei fod yn hollol wirion.'

Ar ôl i bawb cael cyfle i weddio, galwch bawb yn ôl at ei gilydd a gweddiwch y bydd pawb yn derbyn cymorth yr Ysbryd Glân i siarad dros Dduw yn ystod yr wythnos. Gweler hefyd Taflen 5.



SYNIADAU CREFFT

1. Poster 'Paid â bod ofn'

Yn Jeremeia 1:8, mae Duw yn dweud wrth Jeremeia am beidio ag ofni ymateb y bobl i'r neges y bydd yn ei gyhoeddi oherwydd y bydd Duw gyda Jeremeia. Rydym wedi gweld yr un addewid yn cael ei roi i'r bobl y mae Duw yn galw i gyflawni Ei waith trwy'r Beibl i gyd.

Mae Duw'n dweud yr un peth wrth Ei bobl heddiw hefyd – does dim rhaid inni ofni dilyn Iesu, mae Duw'n addo Ei gymorth a'i gwmni i bawb sy'n ymddiried ynddo.

Beth am greu poster sy'n cynnwys lluniau o arwyr y Beibl (mae Hebraeid 11 yn le da i'w darganfod) – pobl a brofodd nerth Duw wrth gyflawni Ei waith. Cewch edrych ar luniau o hen werslyfrau am syniadau, neu o'r llinyn amser.

Gall pob plentyn baratoi llun un cymeriad, gydag amrywiaeth o ddefnyddiau, er mwyn creu cywaith. Cofiwch ddewis teitl addas i'ch gwaith.

2. Nodyn llyfr

Bydd angen darnau o gerdyn maint marc llyfr, darnau o gerdyn sy'n llai, blodau/gwellt sych, pinnau ffelt, glud. Byddai'n syniad i baratoi marc llyfr ymlaen llaw a'i osod yn eich Beibl wrth Eiseia 40:8.

Dangoswch ymarc llyfr i'r plant ac esboniwch eich bod wedi ei osod wrth adnod arbennig. Darllenwch yr adnod iddynt a'i hesbonio. Atgoffwch y plant am hanes y Brenin Jehoiacim yn llosgi'r sgrôl a oedd yn cynnwys neges Duw iddo ac i bobl Dduw. Roedd y Brenin yn bwriadu cael gwared â geiriau Duw, ond doedd hynny ddim yn bosibl. Mae'r adnod yn ein hatgoffa pa mor arbennig yw geiriau Duw, a bydd neb yn gallu cael gwared â geiriau Duw, byth!

Gadewch i'r plant ddewis dau ddarn o gerdyn, un i ludo ar ben y llall, a blodyn neu wellt i ludo ar ben y ddau. Cynorthwywch y plant i gopïo'r adnod ar y marc llyfr hefyd.

Anogwch y plant i ddefnyddio'r marc llyfr yn ystod yr wythnos wrth iddynt ddarllen y Beibl.

Byddai'n syniad da cael hyd i lyfrynnau bach gyda darlleniadau dyddiol ar gyfer plant. Cewch hyd iddynt mewn siopau llyfrau Cristnogol neu ar y We - www.scriptureunion.org.uk/Shop/BibleGuides neu www.cwr.org.uk/store/c-19-topz-for-7-11-year-olds.aspx.

Wrth i chi weithio, sgwrsiwch gyda'r plant am bwysigrwydd darllen y Beibl os ydym am wybod beth sydd gan Dduw i'w ddweud wrthym heddiw.

3. Sgrôl gyda hoff hanes o'r Beibl

Bydd angen stribedi o bapur plaen, hen bensiliau neu gansen ardd, tâp selo, bag te, papur (er mwyn gwneud cynllun), pensiliau ysgrifennu a sychwr gwallt.

Anogwch y plant i feddwl am eu hoff hanes o'r Beibl ac i gynllunio cyfres o luniau o'r hanes. Neu, i feddwl am gynnwys ychydig o baragraffau os oes gwell ganddynt ysgrifennu'r hanes.

Cyn i'r plant ddechrau tynnu'r lluniau ar y sgrôl neu ysgrifennu, dylid rhwygo o amgylch ymylon y papur i greu effaith papur hynafol.

Ar ôl gorffen y lluniau/ysgrifen – does dim angen lliwio'r lluniau – cymerwch y bag te gwlyb a thaenwch ychydig o'r te oer dros y papur. Peidiwch â gor-lychu'r papur, neu bydd y lluniau'n diflannu! Sychwch y papur gyda'r sychwr gwallt cyn tapio'r ddau ben i bensiliau/cansen, a rholio'r 'sgrôl' i fyny. Gadwech i'r plant ddefnyddio'r sgrôliau i ailadrodd eu hoff hanes i bartner neu i'r grŵp cyfan.

4. Daliwr kannwyll

Bydd angen rhywbeth i'w addurno, e.e. gwydrau gwin rhad, cwpanau bach gwydr (sy'n ddigon mawr i ddal 'tealight'), pinnau pwrpasol ar gyfer ysgrifennu ar wydr, canhwylau bach, Beibl.

Trowch i Salm 119, adnod 115 ('Y mae dy air yn llusern i'm troed ac yn oleuni i'm llwybr') a'i ddarllen. Trafodwch ym mha ystyr y mae Gair Duw yn llusern ac yn oleuni: yn syml iawn, mae Gair Duw yn dangos pethau inni, pethau am Dduw a Iesu, pethau amdanom ni, pethau am sut i gael perthynas â Duw trwy Iesu, sut i gael maddeuant pechodau, sut y dylai Cristion fyw i blesio Duw ayyb.

Cynorthwywch y plant i feddwl am luniau addas ar gyfer addurno'r gwydr, geiriau sy'n gysylltiedig â'r Beibl a goleuni. Efallai yr hoffent gopïo'r adnod yn ofalus neu gyfeiriad yr adnod.



GWEITHGAREDD YCHWANEGOL

Cwis

Paratowch restr o gwestiynau ar yr hanesion yr ydych wedi bod yn eu hastudio'n ddiweddar yn yr Ysgol Sul. Bydd angen cloch hefyd.

Rhannwch y plant yn ddau dîm, yn eistedd gyferbyn â'i gilydd gyda bwrdd rhyngddynt. Gosodwch y gloch ar y bwrdd. Mae un aelod o'r ddau dîm yn sefyll tu ôl i'r bwrdd gydag un llaw tu ôl i'w gefn. Darllenwch y cwestiwn cyntaf. Y person cyntaf i ganu'r gloch sy'n cael ateb y cwestiwn. Os nad ydynt yn ateb yn gywir caiff y person arall gynnig arni. Os bydd yr ateb yna'n anghywir, cewch ofyn y cwestiwn eto yn ddiweddarach yn y cwis. Rhowch 10 o bwyntiau i'r timoedd am ateb cywir ar y cynnig cyntaf neu 5 o bwyntiau am ateb ar yr ail gynnig.

Dysgu'r Adnod

Dysgwch yr adnod drwy chwarae gêm 'Hangman' gyda'r plant.

Jeremeia 29: 11 – 'Myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer, bwriadau o heddwch, nid niwed, i roi ichwi ddyfodol gobeithiol'.

Gêm

Gêm y Mynegai

Bydd angen copi o'r Mynegai (Atodiad 6) ar gyfer pob plentyn, neu gellwch rannu'r grŵp yn barau neu grwpiau bychain. Hefyd, amrywiaeth o Feiblau.

Nod y gêm yw bod y plant yn dod yn gyfarwydd â'r ffaith bod dwy prif ran i'r Beibl, yr Hen Destament a'r Testament Newydd, a'i fod yn gasgliad o 66 llyfr.

Dechreuwch drwy edrych ar y Beiblau. Esboniwch fod gan y Beibl ddwy brif ran, sef,

yr Hen Destament sy'n adrodd hanes pobl Dduw cyn geni Iesu Grist, a'r Testament Newydd sy'n adrodd hanes Iesu Grist a dilynwyr Iesu ar ôl iddo fynd yn ôl i'r nef at Dduw, ei dad. Dangoswch y tudalennau perthnasol.

Nesaf, edrychwch yn y mynegai ac esboniwch fod yr Hen Destament yn cynnwys 39 llyfr gwahanol. Gofynnwch i'r plant i ddweud enwau rhai o'r llyfrau.

Nodwch fod yr un peth yn wir am y Testament Newydd, a bod iddo 27 llyfr. Eto, edrychwch am rai o'r enwau.

Rhannwch gopïau o'r Mynegai ac esboniwch reolau'r gêm. Yn syml iawn, byddwch yn gofyn i'r plant ddod o hyd i lyfr penodol a'r cyntaf i ddangos ateb cywir sy'n ennill pwynt.

Dyma rai enghreifftiau, teimlwch yn rhydd i ychwanegu mwy.

Llyfr o'r Hen Destament sy'n dechrau gyda'r llythyren 'L'; Llyfr yn y Testament Newydd sy'n dod ar ôl llyfr y Galatiaid; Llyfr olaf y Beibl; Llyfr olaf yr Hen Destament; Dau Lyfr sydd wedi cael eu henwi ar ôl disgyblion Iesu.

Er mwyn creu mwy o gynnwrf, gallwch eistedd ar ben arall yr ystafell i'r plant, gydag un aelod o'r tîm yn dod i ddangos yr ateb i chi. Cadwch gofnod o'r pwyntiau a rhowch wobr fechan i'r tîm buddugol.

Atgoffwch y plant bod Duw yn siarad gyda ninnau heddiw trwy'r Beibl a thrwy bobl sy'n ceisio ein helpu i ddeall y Beibl. Os ydym yn treulio amser yn darllen Gair Duw, enw arall am y Beibl, byddwn yn dod i wybod beth mae Duw am inni ei wybod!

Taflenni Gwaith



DRAMA

1. Cyflwyno'r Proffwydi

Bydd angen y llinyn amser, copi o 'Beibl Lliw y Plant' ar gyfer pob grŵp, amrywiaeth o 'brops'.

Trafodwch rôl y proffwydi gyda'r plant. Byddai o gymorth i ddefnyddio'r llinyn amser i leoli rhai o'r proffwydi mewn amser. Holwch y plant i ddarganfod beth maent yn ei gofio am hanes y proffwydi.

Rhannwch y plant yn grŵpiau llai, os oes angen, a gofynnwch i bob grŵp i greu sgets/meim am un o'r proffwydi isod. Daw'r cyfeiriadau isod o 'Beibl Lliw y Plant'. Anogwch y plant i ddarllen hanes y proffwyd cyn ceisio creu cyflwyniad. Mae'r pedwar proffwyd a gaiff eu henwi wedi bod yn destun un o'r gwrslyfrau. Cofiwch adael digon o amser i wyllo'r cyflwyniadau, ac efallai yr hoffech drefnu i un o'r oedolion fflmio'r cyfan er mwyn i'r plant gael gwyllo eu hunain.

Y Proffwydi: Jona – tudalen 174; Daniel – tudalen 166; Jeremeia – tudalen 158; Elias – tudalen 140.

2. Darlleniad gyda meim – hanes Brenin Jehoiacim yn llosgi'r sgrôl

3. Chwarae rôl – rhybuddion

Anogwch y plant i feddwl am achlysuron pan wnaethant ddewis gwneud rhywbeth anghywir yn lle dewis gwneud yr hyn oedd yn iawn. Beth oedd y canlyniadau?

Yn hanes Jeremeia, gwelwn Dduw yn rhybuddio'r bobl nad ydynt yn byw yn y ffordd iawn. Trwy ddanfôn negeseuon iddynt mae Duw'n rhoi sawl cyfle i'r bobl ddewis gwneud yr hyn sy'n iawn. Beth oedd dewis pobl Dduw?

Rhannwch y plant i grŵpiau llai, os bydd angen, a'u hannog i ddychmygu sefyllfa pan fydd rhywun yn wynebu dewis, rhybudd a chanlyniad. Gwahoddwch pob grŵp i greu cyflwyniad syml o'r sefyllfa. Dyma un enghraifft: dychmygwch eich bod yn gofalu am eich brawd/chwaer fach. Rydych yn ei rhybuddio i beidio â mynd yn agos i'r popty, gan fod swper ar y gweill ac mae'r popty'n boeth. Os bydd y plentyn yn torri'r rheol, bydd rhaid iddo ef/hi eistedd ar waelod y grisiau am bum munud fel cosb.

Trafodwch gyda'r plant, yn gyntaf, pam fod gosod y rheol yn bwysig a sut fydden nhw'n teimlo petai'r rheol yn cael ei thorri a'r gosb yn cael ei gweithredu? Rhowch gyfle wedyn i'r grŵpiau i drafod a dewis sefyllfa i'w actio. Cofiwch adael amser i bawb gyflwyno eu hymdrechion ac i drafod. Oedd y rheol yn un deg? Oedd y gosb yn un deg?

AMSERLEN

Wythnos 1:

Cyflwyno'r Thema 1 neu 2;
Cyflwyno'r Hanes 1; Crefft 1 neu 2;
Drama 1 neu 3.

Wythnos 2:

Cyflwyno'r Thema 3 neu 4;
Cyflwyno'r Hanes 2; Crefft 2 neu 3;
Drama 2.

Wythnos 3:

Cyflwyno'r Hanes 5;
cyflwyno'r Hanes 3; Crefft 4;
Drama 1 neu 2

Darlleniad gyda meim: Jeremeia

Bydd angen Jeremeia, Baruch, y Brenin Jehoiacim, swyddogion y Brenin/swyddogion y Deml a Jehudi.

Darllenydd:

Roedd gan Jeremeia swydd bwysig. Negesydd Duw oedd ef – proffwyd. Siaradodd Duw gyda Jeremeia ac aeth Jeremeia at bobl Dduw gyda'r neges. Ond, doedd pobl Dduw ddim yn fodlon gwrando bob tro! Dyma beth ddigwyddodd unwaith....

Siaradodd Duw gyda Jeremeia “Jeremeia, cymer sgrôl ac ysgrifenna bopeth dwi wedi'i ddweud wrthyf arno. Efallai bydd fy mhobl yn gwrando arnat ac yn peidio â bod mor ddrwg. Os byddant yn troi ataf a gofyn am faddeuant, byddaf yn siŵr o faddau iddynt.”

Galwodd Jeremeia ar Baruch. “Baruch, tyrd yma. Mae gennym waith i'w wneud. Eistedda'n fan hyn a 'sgwenna bopeth dwi'n ei ddweud wrthyf ar y sgrôl.”

Mae Baruch yn meimio ysgrifennu am ychydig.

Ar ôl gorffen ysgrifennu, danfonodd Jeremeia Baruch i'r Deml. “Nawr, Baruch, mae angen i ti fynd i'r Deml i ddarllen y sgrôl i bawb sydd yno,” meddai Jeremeia wrtho. “Mae Duw yn mawr obeithio bydd y bobl yn sylweddoli pa mor drist â pha mor flin yw Duw am eu pechodau. Mae Duw am roi un cyfle arall iddynt i droi'n ôl ato am faddeuant”.

Felly dyma Baruch yn mynd i'r Deml a darllen y sgrôl a oedd yn cynnwys neges Duw i'r bobl oedd yno.

Mae Baruch yn meimio cerdded i'r Deml, yn agor y sgrôl ac yn meimio darllen.

“Mae Duw yn dweud, mae'n amser stopio gwneud pethau drwg,” darllenodd Baruch. “Mae'n amser gweddïo, mae'n amser bod yn ffrindiau gyda fi eto, dwi am i chi fyw i fy mhlesio i.”

Mae'r swyddogion yn meimio gwrando ac yn ymateb mewn syndod a braw.

Darllenodd Baruch yn araf ac yn glir fel bod pawb yn gallu clywed.

Mae'r swyddogion yn mynd at Baruch a'i arwain at y Brenin Jehoiacim a Jehudi. Mae Jehudi yn cymryd y sgrôl gan Baruch.

Gofynnodd Jehudi i Baruch, o ble ddaeth y sgrôl?

“Mae'r neges sydd ar y sgrôl wedi dod gan Dduw ei hun,” atebodd Baruch. “Siaradodd Duw gyda Jeremeia, a dywedodd Jeremeia wrthyf beth i'w ysgrifennu.”

Roedd y Brenin yn awyddus i glywed beth oedd ar y sgrôl, felly dyma Jehudi'n dechrau darllen y neges a oedd ar y sgrôl.

Mae Jehudi yn meimio agor y sgrôl a'i ddarllen.

Ond...doedd y Brenin ddim yn hapus o gwbl i glywed neges Duw.

Darllenodd Jehudi, “Mae Duw yn dweud, mae'n amser stopio gwneud pethau drwg...”

“Arhoswch!” gwaeddodd y Brenin. “Dydy hyn ddim yn bwysig. Torrwch y darn yna i ffwrdd a'i losgi yn y tân yma!”

Mae'r Brenin yn meimio torri darn o'r sgrôl a'i daflu i'r tân.

Jehudi yn meimio darllen y sgrôl eto,

‘Mae'n amser rhoi'r gorau i addoli'r delwau paganiaid a gweddïo arna i.....’ darllenodd Jehudi.

Unwaith eto, gwaeddodd y Brenin ar Jehudi i aros. “Arhoswch!” meddai, “Dydy hyn ddim yn bwysig chwaith. Torrwch y darn yna i ffwrdd a’i losgi yn y tân yma!”

Mae’r Brenin yn meimio torri darn o’r sgrôl a’i daflu i’r tân.

Jehudi yn meimio darllen y sgrôl eto,

Cychwynnodd Jehudi ddarllen eto. “Mae’n amser bod yn ffrindiau gyda mi eto meddai Duw....

“Dydy hyn ddim yn bwysig chwaith,” sgrechiodd y Brenin dros y lle. “Torrwch y darn yna i ffwrdd a’i losgi yn y tân yma!”

Mae’r Brenin yn meimio torri darn o’r sgrôl a’i daflu i’r tân.

Beth arall oedd gan Dduw i’w ddweud? “Dwi am i chi fyw i fy mhlesio i,” darllenodd Jehudi.

Beth oedd ymateb y Brenin? Unwaith eto, torrodd y darn yna o’r sgrôl i ffwrdd a’i losgi yn y tân.

Mae’r Brenin yn meimio torri darn o’r sgrôl a’i daflu i’r tân.

Yn y diwedd, doedd dim o’r sgrôl ar ôl! Aeth Baruch adref at Jeremeia’n ddigalon. Doedd y Brenin ddim am gymryd sylw o neges Duw.

Mae Baruch yn cerdded yn ôl at Jeremeia yn ddigalon.

Siaradodd Duw gyda Jeremeia unwaith eto. “Jeremeia, cymer sgrôl arall ac ysgrifenna’r hyn oedd ar y sgrôl cyntaf arno. Dwi wedi rhoi cyfle i’r Brenin a’r holl bobl i droi yn ôl ataf. Nawr, mae’n rhy hwyr. Mae Brenin Babilon ar y ffordd. Bydd ei fyddin yn ymosod ar Jerwsalem, yn concro’r ddinas ac yn cymryd llawer o’i phobl i ffwrdd mewn cadwynau.”

Roedd Jeremeia a Baruch yn gwybod fod negeseuon Duw yn rhai pwysig dros ben, felly dyma Baruch yn eistedd unwaith eto i ysgrifennu geiriau Duw.

GWEDDÏAU

1. Ddoe, heddiw, yfory

Bydd angen ysgrifennu ‘Ddoe’, ‘Heddiw’ ac ‘Yfory’ ar wahân ar 3 darn o bapur.

Dangoswch un o’r geiriau ar y tro i’r plant gan ofyn iddynt feddwl am rywbeth a ddigwyddodd ddoe, h.y. yn y gorffennol; rhywbeth sy’n digwydd heddiw, h.y. yn y presennol, a rhywbeth a fydd yn digwydd iddynt yfory, h.y. yn y dyfodol.

Atgoffwch y plant o’r gweledigaethau gafodd Jeremeia. Mae Duw’n gwybod beth sy’n mynd i ddigwydd yn y dyfodol, a dyna sut y gallai ddweud wrth Jeremeia beth fyddai’n digwydd yn y dyfodol i bobl Jwda ac Israel.

Un peth y dylwn ddysgu o hanes Jeremeia yw bod Duw yn holl wybodus: mae’n gwybod beth sydd wedi digwydd yn y gorffennol, mae’n gwybod beth sy’n digwydd yn y presennol ac mae’n gwybod beth fydd yn digwydd yn y dyfodol.

Defnyddiwch y tri gair i arwain eich gweddïau. Yn gyntaf, treuliwch amser yn gweddïo dros bethau o’r gorffennol, yn diolch i Dduw am y

bendithion y mae Ef wedi rhoi; nesaf, gweddïwch am bethau sydd o bwys heddiw, problemau a digwyddiadau’r presennol; yn olaf, gweddïwch dros ddigwyddiadau’r dyfodol, am gymorth Duw ar gyfer yr wythnos sydd i ddod, dros bobl y byddwn yn eu cyfarfod ayyb. Efallai y byddai’n syniad i chi weddïo’n gyntaf i roi syniad i’r plant cyn eu gwahodd i weddïo eu hunain.

2. Dros rai sy’n ceisio rhannu’r newyddion da o Air Duw heddiw


Gwnewch restr o’r bobl sy’n adnabyddus i’r plant sy’n ceisio dysgu pobl a phlant am Iesu Grist.

Ychwanegwch enwau pobl sy’n gweithio i rannu cariad Duw yn ehangach, e.e Cenhadaeth y Gwahangleifion, Cymdeithas y Beibl, *Tearfund*, *Operation Christmas Child*. Cofiwch weddïo dros bobl o wledydd sydd yn y newyddion hefyd ynghyd ag unrhyw rai yr ydych yn eu cefnogi fel capel neu Ysgol Sul.




Taflen 4 Jeremeia: Llyfr Jeremeia


Edrychwch am yr adnodau yn Salm 139 i ddarganfod beth mae Duw yn ei wybod.....



Adnod 4






Adnod 23



Adnod 13-16


Mae Duw yn gwybod popeth

Oes rhywbeth yn dy fywyd yr wyt angen cymorth Duw i'w newid?
Tynna lun neu ysgrifenna amdanynt yn y potiau hyn.





Ydych chi'n cofio pa neges oedd gan y rhain?



Beth ddigwyddodd nesaf?

Jona?

Daniel?.....

Elias?

Iesu?





Taflen 6 Jeremeia: Llyfr Jeremeia


Beth welodd Jeremeia yn ei weledigaeth?



Beth oedd ystyr y darlun?



Beth oedd ystyr y darlun?





Taflen 7 Jeremeia: Llyfr Jeremeia

Cafodd Jeremeia negeseuon gan Dduw. Roedd Duw am i'w bobl droi'n ôl ato, i'w addoli Ef yn unig a bod yn ufudd iddo.

Lliwia'r lluniau o'r hanes ac ysgrifenna beth sy'n digwydd yn y llun. Gorffena'r hanes drwy dynnu y llun olaf dy hun.

<p><i>Beth ddigwyddodd nesaf?</i></p>	


Roedd y Brenin Jehoiacim yn meddwl ei fod yn medru cael gwared o Air Duw!
Llenwch y bylchau i ddarganfod beth ddywedodd y proffwyd Eseia am hyn.

Y m_e'r gl_s_ellt _n crino,
_r blodeu_n _n g_ _ _o:
ond _ m_e g_ir ein Du_ ni _n sef_ll
hy_ b_th. Esei_ 40 _dnod 8



Taflen 8 Jeremeia: Llyfr Jeremeia

Fedri di ddod o hyd i enwau'r bobl yma a rannodd negeseuon Duw?



Noa
Gideon
Moses
Samuel
Dafydd
Elias
Daniel
Iesu
Pedr
Paul

Dyma addewid Duw i bawb sy'n ceisio rhannu'r newyddion da, heddiw fel ag erioed...

Paid ag ofni...
yr wyf fi gyda thi
i'th waredu.
Jeremeia 1:8



Oed 11 - 14

Jeremeia: Llyfr Jeremeia

Roedd Jeremeia'n byw yn nheyrnas Jwda, tua 2600 o flynyddoedd yn ôl. Cafodd ei alw i fod yn broffwyd yn 626 C.C. ac yntau'n ddyn ifanc 20 oed, a pharhaodd ei weinidogaeth drwy deyrnasiad 5 brenin olaf Jwda.

Yn yr Hen Destament, mae'r berthynas rhwng Duw a'i bobl yn cael ei bortreadu o bryd i'w gilydd fel 'priodas.' Mae cyfamod yn bodoli rhyngddynt - cyfamod a gafodd ei sefydlu yn gyntaf rhwng Duw ac Abraham, a chafodd ei gadarnhau gydag Isaac, Jacob, Joseff a Moses. Ond roedd pobl Dduw yn anffyddlon iddo, yn troi oddi wrth addoli'r Duw byw at ddelwau'r paganiaid. Mae'r boen a'r siom y mae Duw yn dioddef yn ddyfnach hyd yn oed na'r boen y mae gŵr yn ei brofi wrth ddarganfod bod ei wraig wedi bod yn anffyddlon.

Eto, mae Duw am roi cyfle i'w bobl edifarhau a throi'n ôl ato, ac mae'n barod i faddau a'u derbyn yn ôl. Er i Dduw rybuddio'r bobl bod amseroedd caled o'u blaen os na fyddent yn gwrando, parhau i fyw â'u cefnau wedi eu troi at Dduw yw eu hanes. Mae proffwydoliaethau Jeremeia yn cael eu gwireddu wrth i fyddin Babilon goncro Jerwsalem, dinistrio'r Deml a chipio nifer helaeth o'r boblogaeth. Ond roedd gan Jeremeia newyddion da i'w gyhoeddi hefyd. Gwelodd amser yn dod pan fyddai Duw yn casglu'r alltudion yn ôl i wlad yr addewid i brofi llwyddiant a bendith Duw unwaith eto, ac ar yr amser hwnnw, gwneir Cyfamod Newydd rhwng Duw a'i bobl. Yng nghanol yr addewidion, mae'r addewid am Frenin Cyfiawn o linach Dafydd, a fydd yn teyrnasu mewn cyfiawnder ac yn dod â heddwch, nid yn unig i'r Iddewon ond i drigolion yr holl ddaear - neb llai na Iesu, Mab Duw, y Meseia.

Wythnos 1:

Jeremeia 1:1-10

Cyflwyno'r Thema

Naill ai

Gofynnwch i'r grŵp beth maent yn dymuno ei wneud ar ôl gadael yr ysgol. Gofynnwch iddynt beth oedd yr ateb i'r cwestiwn hwn pan oeddent yn iau, a sut mae eu huchelgais wedi newid dros y blynyddoedd. Gofynnwch iddynt beth sydd wedi dylanwadu ar eu dewisiadau a'r rhesymau sydd ganddynt dros ddewis y llwybrau hyn.

Neu,

Dewiswch sawl swydd wahanol, e.e. Plismon, Athro, Prif Weinidog, Dyn Hufen Iâ neu Ddyn Blasu Ffa Pob - a phenodwch rhai o'r ieuencid i greu panel cyfweld. Rhowch un o'r swyddi i bawb sydd ar ôl ac yna ewch ati i gynnal cyfweliadau. Rhowch gwestiynau i'r panel cyfweld; e.e. Pam wyt ti eisiau'r swydd yma?

Pa gymwysterau sydd gen ti ar gyfer y swydd a.y.b? Mae'n rhaid i bob person geisio perswadio'r panel i roi'r swydd iddynt.

Darllen a Deall yr Hanes: Jeremeia 1:1-10

Bydd angen Beiblau a dau ddarn o bapur maint A4, bydd angen y geiriau 'Fy ngalwad i' ar un, a 'Galwad Timotheus' ar y llall. Gadewch le i ysgrifennu o dan y teitl.

Cyn darllen y darn esboniwch neu gofynnwch i'r grŵp a ydynt yn cofio beth yw proffwyd. Yn yr Hen Destament mae 'Proffwyd' yn un sydd wedi ei anfon gan Dduw er mwyn rhoi neges arbennig i berson neu bobl arbennig. Yn aml, byddai'r proffwyd yn dod â neges oddi wrth Dduw i'r brenin neu i'r wlad gyfan. Mae Elias, Eseciel a Ioan Fedyddiwr yn enghreifftiau eraill o broffwydi yn y Beibl.

Darllenwch yr hanes o'r Beibl gyda'ch gilydd - Jeremeia 1: 1-10.



Oed 11 - 14

Jeremeia: Llyfr Jeremeia

Mae Jeremeia yn derbyn galwad. Mae Duw yn esbonio Ei fod wedi dewis Jeremeia cyn iddo gael ei eni a bod Jeremeia wedi cael ei osod ar wahân tra yng nghroth ei fam. Mae Jeremeia wedi cael ei alw i fod yn broffwyd.

Yn syth, mae Jeremeia'n poeni. Mae'n poeni ei fod yn rhy ifanc i dderbyn galwad oddi wrth yr Arglwydd. Mae'n dweud wrth yr Arglwydd, "O Arglwydd Dduw, ni wn pa fodd i lefaru, oherwydd bachgen ydwyf fi." Mae ymateb Jeremeia yn debyg i ymateb Moses i orchymyn Duw pan oedd yn sefyll o flaen y berth oedd ar dân ond heb ei llosgi.

Mae Duw yn ymateb drwy esbonio, os bydd Jeremeia'n ffyddlon iddo Ef, bydd Duw yn aros gydag ef ac yn ei gynnal ym mhob peth. Mae stori Jeremeia yn un sy'n pwysleisio ffyddlondeb tuag at Dduw ac yn pwysleisio pwysigrwydd bywyd gyda Duw.

Cymhwys

Mae pob person yn cael ei alw i ddilyn Crist. Mae pawb yn derbyn gwahoddiad cyffredinol i ddilyn Crist ac i fod yn Gristion. *Dangoswch y papur gyda'r geiriau 'Fy ngalwad i', ac ysgrifennwch o dan y teitl 'i ddilyn Iesu.'*

Ond, mae Cristnogion hefyd yn derbyn galwad benodol. Mae gan bawb sy'n dilyn Crist rôl, h.y. mae'r Beibl yn dweud ein bod yn dod i mewn i deulu Duw ac mae gan bob aelod o'r teulu rôl benodol a phwysig.

Ysgrifennwch *'i chwarae fy rôl' o dan y teitl.*

Rôl Jeremeia oedd bod yn broffwyd ond mae yna sawl rôl arall. Mae doniau gwahanol ar ein cyfer, doniau sy'n ein gwneud yn addas ar gyfer gwahanol swyddogaethau.

Yn aml yn ein capeli rydym yn credu mai dim ond y gweinidog neu'r pregethwr sydd â rôl; neu, mai dim ond y rhai sy'n eistedd yn y sêd fawr sydd â swyddogaeth. Nid yw hyn yn wir o gwbl. Mae gan bob Cristion rôl.

Mae pregethu, dysgu ac arwain yn swyddogaethau amlwg, ond beth am waith plant ac ieuenctid? Beth am ymweld? Beth am rywbeth mor syml â helpu i osod y cadeiriau? Weithiau, mae'n hawdd i bobl ifanc boeni eu bod yn rhy ifanc i gael rôl neu fod pobl hwn yn edrych i lawr arnynt oherwydd eu bod yn ifanc. Dyma sut roedd Jeremeia'n teimlo.

Ceir enghraifft o hyn yn y Testament Newydd hefyd.

Darllenwch o'r Beibl gyda'ch gilydd – 1 Timotheus 4:12

Gosodwch yr ail bapur o flaen y grŵp, '*Galwad Timotheus.*'

Mae Timotheus wedi cael ei alw i weithio gyda Paul. Mae Paul yn teithio o wlad i wlad yn esbonio beth yw 'Cristnogaeth' ac mae Timotheus yn mynd gydag ef sawl gwaith. Mae Paul yn ysgrifennu at Timotheus i'w sicrhau na ddylai deimlo ei fod yn cael ei fychanu am fod yn ifanc, ond yn hytrach, ei fod i fyw bywyd da i ddangos i bobl fod Duw wedi ei alw ef.

❖ Beth ydy rôl Timotheus yn ôl adnod 12? *I fod yn esiampl i Gristnogion eraill yn y ffordd y mae'n siarad ac yn ymddwyn, a hynny mewn ffydd, cariad a phurdeb.*

❖ Ydy Duw yn ein galw ni i'r un rôl a Timotheus?

❖ Sut fath o bobl ddylwn ni fod os ydyn ni'n credu bod Duw wedi ein galw i ddilyn Iesu? *Treuliwch amser yn ceisio cymhwyso hyn i fywydau'r bobl ifanc. Beth mae'n ei olygu i fyw mewn ffydd? Sut allwn ni ddangos cariad? Beth yw bywyd pur?*

Mae'r Cristion yn awyddus i ufuddhau i Dduw o ddydd i ddydd. Bydd bywyd y Cristion, y ffordd mae'n ymddwyn ac yn siarad, yn dangos i eraill ei f/bod yn rhan o deulu Duw.



Oed 11 - 14

Jeremeia: Llyfr Jeremeia

Mae Duw'n addo bod gyda Jeremeia yn ei waith ac i roi'r geiriau y mae eu hangen yn ei geg. Wrth i ni ufuddhau i alwad Duw mae Duw'n addo aros gyda ni a'n helpu.

Gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r grŵp:

1. Pa swyddogaethau sydd yna yn eich capel chi? Oes rhywbeth fedrwch **chi** ei wneud?
2. Pa bethau mae Duw am i chi eu gwneud tu allan i'r capel?
3. Oes gennych chi ffydd bod Duw'n mynd i aros gyda chi?

Gweddi

Gweddiwch mewn grŵp. Ewch o amgylch y grŵp, un ar y tro, gan weddio rhywbeth syml, megis "Dangos i mi'r angen i dy ddilyn Di a dangos i mi beth yw fy rôl. Amen." Anogwch bawb i ddweud 'Amen' ar ddiwedd pob gweddi.

Gweithgaredd Ychwanegol

Rhannwch ddarnau o bapur gyda'r grŵp a rhowch bensil neu feiro i bawb. Ar y darn o bapur ysgrifennwch restr o enwau pawb sy'n bresennol (a rhai sydd ddim os ydynt yn dod yn aml) a gofynnwch i'r grŵp i ddewis ansoddair cadarnhaol ar gyfer pob aelod o'r grŵp. Esboniwch fod hyn o help wrth adnabod swyddogaethau pawb.

Wythnos 2

Cyflwyno'r Thema

Naill ai

Gofynnwch i'r grŵp feddwl am adeg pan oeddent yn dibynnu'n llwyr ar rywun arall. Gofynnwch iddynt beth oedd yn rhoi hyder iddynt yn y sefyllfaoedd hyn. Meddyliwch am enghraifft eich hunain i rannu gyda'r grŵp.

Neu,

Rhowch ddarn o bapur a phensil/beiro i bob aelod o'r grŵp. Tynnwch linell i lawr canol y

dudalen. Gofynnwch i'r grŵp i dynnu llun lle delfrydol sy'n llawn pethau da ar un ochr i'r llinell a rhywbeth i'r gwrthwyneb ochr arall i'r llinell. Os ydych yn brin o amser, gallwch ofyn i aelodau'r grŵp i ddisgrifio'r ddau le yma ar lafar.

Darllen a Deall yr Hanes: Jeremeia 17:5-10

Roedd Jeremeia'n broffwyd. Yr wythnos ddiwethaf gwelsom beth yw ystyr galwad, a'r ffaith fod Jeremeia wedi cael ei alw i fod yn broffwyd. Ond, beth yw gwaith proffwyd? Un sy'n cyhoeddi newyddion da neu ddrwg gan Dduw i berson neu bobl benodol.

Yr wythnos yma rydym yn edrych ar un o broffwydoliaethau a chyhoeddiadau Jeremeia. Roedd Jeremeia'n proffwyd i holl bobl Jwda. Darllenwch yr hanes o'r Beibl gyda'ch gilydd - Jeremeia 17: 5-10

Mae Jeremeia'n darlunio dau dirlun i ni yn ei broffwydoliaeth. Yn gyntaf, mae'n darlunio tir sych a diffaith sydd wedi troi'n anialwch. Mae'n disgrifio'r anialwch fel lle heb ddaioni a lle unig ofnadwy. Mae'r darlun yma'n un sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio dyn sy'n dibynnu neu sy'n rhoi ei hyder mewn dynoliaeth a phethau dynol. Mae'r ail darlun a gawn yn gwbl i'r gwrthwyneb. Mae Jeremeia'n darlunio coed mawr yn tyfu'n iach wrth lannau'r afon. Pan ddaw'r gwres a'r tywydd sych nid yw'r coed yn cael eu heffeithio oherwydd maent yn dibynnu ar ddŵr yr afon. Mae'r darlun yma'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio dyn sy'n glynu wrth yr Arglwydd ac yn dibynnu'n llwyr ar Dduw.

Mae'r broffwydoliaeth yn gorffen drwy esbonio bod Duw'n chwilio calonnau pob un ohonom i weld os ydym yn dda.

Cymhwyso

Bydd angen y ddau lun o'r GDd – yr anialwch a gardd ffrwython.



Oed 11 - 14

Jeremeia: Llyfr Jeremeia

Wrth edrych ar y ddau ddarlun mae'n amlwg bod un yn well na'r llall. Mae'n amlwg bod darlun yr afon a'r tir ffrwythlon yn apelio llawer iawn mwy na'r anialwch a'r tir sych. Mewn gwirionedd, mae Jeremeia'n disgrifio sut mae byw bywyd.

Mae Jeremeia'n egluro wrthym sut i fyw'r bywyd y mae Duw am i ni ei fyw yn hytrach na byw bywyd heb Dduw. Mae Duw'n cael ei bortreadu yn y ddau ddarlun drwy'r cyfeiriad at ddŵr. *Dangoswch lun yr anialwch.*

Mae tir heb ddŵr yn troi'n anialwch. Mae tir gyda dŵr yn ffrwythlon. Mae hwn yn ddarlun sy'n ymddangos nifer o weithiau yn y Beibl, oherwydd mae'n ddarlun sy'n defnyddio ffaith amlwg bywyd – bod angen dŵr arnom ni.

Gofynnwch i'r bobl ifanc am syniadau am bethau y mae pobl yn dibynnu arnynt, e.e. teulu, swydd dda, sêr y cyfryngau, tîm pêl-droed/rygbi, arian, cartref moethus ayyb. Ysgrifennwch eu syniadau o amgylch y llun.

Wrth i ni ddibynnu ar bethau'r byd - h.y. anwybyddu Duw - rydym yn byw yn yr anialwch. Mae pob peth yn y byd yn mynd i ddod i ben ac felly nid yw'r pethau hyn yn gymorth i ni mewn gwirionedd.

Dangoswch lun yr ardd.

Wrth i ni ddibynnu ar Dduw rydym yn rhoi ein bywydau yn nwylo Duw holl bwerus a hollalluog sy'n mynd i fod yno i ni am byth. Beth y mae Duw'n ei roi i'r person sy'n dibynnu arno ef?

Ysgrifennwch syniadau'r grŵp o amgylch y llun. Dyma rai syniadau: maddeuant, cariad, bywyd tragwyddol, tawelwch meddwl, gofal, sicrwydd am y dyfodol, arweiniad, perthynas gyda Duw, cael ein mabwysiadu i deulu Duw.

Mae'n rhaid i mi wneud penderfyniad. Mae'n rhaid i mi ddewis rhwng byw gan ddibynnu ar bethau'r byd neu fyw gan ddibynnu ar Dduw.

Dyma yw bod yn Gristion - rhoi fy mywyd yn nwylo Duw.

Mae Duw yn ein galluogi i wneud hynny. Dywed yn Jeremeia 17, mae Duw yn chwilio ein calonnau i weld sut y bŵm yn byw. Y gwirionedd yw bod pob un ohonom wedi byw gan ddibynnu ar bopeth ond Duw.

Trwy wneud hyn rydym yn anufudd i Dduw ac mae'n rhaid i ni ddweud sori wrtho. Mae Duw'n maddau wrthym ac yn clirio'r anufudd-dod yma gan wneud ffordd i ni fyw ein bywydau iddo Ef, gan ddibynnu arno Ef yn llwyr.

Darllenwch Effesiaid 2: 3-5 gyda'ch gilydd.

Mae Paul yn esbonio'r un peth yn ei lythyr at yr Effesiaid. Yn adnod 3, mae'n esbonio fod pawb wedi byw bywyd gan blesio eu hunain, fod pawb wedi byw gan ddibynnu ar bopeth ond am Dduw. Ond mae Paul yn esbonio bod Duw yn ein hachub ni trwy ras.

Yn adnodau 4 a 5, mae Paul yn disgrifio sut y mae Duw wedi gwneud ffordd i ni, trwy groeshoeliad Iesu Grist, i fedru byw bywyd llawn Duw – y tir ffrwythlon, yn hytrach na bywyd heb Dduw – anialwch.

Gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r grŵp:

1. Ar ba bethau yr ydych chi'n dibynnu arnynt yn lle Duw?

2. Ydych chi'n wedi gwneud penderfyniad i ddibynnu ar Dduw yn lle pethau'r byd?

Gweddi

Gweddiwch mewn grŵp. Ewch o amgylch y grŵp, un ar y tro, gan weddio rhywbeth syml, megis "Dangos i mi'r lle y mae'n rhaid i ni ddibynnu arnat ti yn lle pethau'r byd. Amen." Anogwch bawb i ddweud 'Amen' ar ddiwedd pob gweddi.



Gweithgaredd Ychwanegol

Er mwyn pwysleisio'r trosiad o ddŵr, h.y. bod pethau'n well gyda dŵr, fel bod bywyd yn well gyda Duw, dewiswch sawl peth sy'n blasu'n well ar ôl i chi ychwanegu dŵr iddo, e.e. coffi, 'cup-a-soup', pasta, reis ayb. Heriwch y grŵp i drïo'r pethau yma yn sych cyn ychwanegu dŵr atynt.

Wythnos 3: Jeremeia 29:10-14

Cyflwyno'r Thema

Naill ai

Gofynnwch i'r grŵp i feddwl am dri pheth y maent yn gobeithio bydd yn digwydd yn eu bywydau yn y dyfodol. Anogwch y grŵp i rannu eu gobeithion gyda'i gilydd. Bydd hi'n ddiddorol gweld beth yw gobeithion y bobl ifanc.

Neu,

Rhannwch ddarnau o bapur a phensiliau gyda'r grŵp. Gofynnwch iddynt dynnu llun o'ch pentref/tref neu ddinas hanner can mlynedd i'r dyfodol gan nodi beth fydd yn wahanol neu'r hyn fydd wedi newid erbyn hynny. Awgrymwch y bydd adeiladau, gwisgoed, teclynnau, trafndiaeth a.y.b wedi newid...

Darllen a Deall yr Hanes

Bydd angen Beiblau, y llun o Fabilon o'r GDd, darn o bapur maint A4 gyda'r gair 'DUW' arno a chroes - un papur neu un wedi'i gwneud o ddau frigyn.

Mae Jeremeia wedi bod yn rhybuddio'r Iddewon y byddant yn cael eu cosbi os nad ydynt yn troi at Dduw. Erbyn hyn mae'r gosb wedi dod ac mae'r bobl wedi eu caethgludo i wlad arall, sef Babilon. Mae Daniel yn rhan o'r gaethglud yma, yma hefyd clywn am stori Daniel yn ffau'r llewod a Mesach, Shadrach ac Abednego yn y tân.

Mae Jeremeia'n ysgrifennu at yr Iddewon sy'n gaeth ym Mabilon.

Darllenwch yr hanes o'r Beibl gyda'ch gilydd - Jeremeia 29:10-14

Mae Jeremeia'n esbonio bod Duw am eu rhyddhau o'u caethiwed ym Mabilon a bod ganddo gynlluniau da ar eu cyfer. Buont yn gaeth am gyfnod hir, ond nawr, mae yna olau ym mhen y twnnel.

Adnod enwocaf Jeremeia yw Jeremeia 29:11, "*Oherwydd myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer,*' medd yr Arglwydd, '*bwriadau o heddwch, nid niwed, i roi ichwi ddyfodol gobeithiol.*"

Mae Jeremeia'n esbonio bod yn rhaid i'r bobl droi at Dduw. Mae Jeremeia'n esbonio bod yn rhaid i'r bobl weddio a gweddio a gweddio, a cheisio Duw gyda'u holl galonnau. Mae'n rhaid iddynt fod o ddifri am eu dymuniad i ddod yn ôl at Dduw a derbyn rhyddhad.

Yna, mae Jeremeia'n esbonio bod Duw am fynd â nhw yn ôl i'w gwlad. Bryd hynny, byddai'r Iddewon yn cael teithio yn ôl i'r lle y maent i fod.

Cymhwys

Mae Jeremeia'n ysgrifennu at yr Iddewon ym Mabilon, (*dangos y llun o Fabilon*) ond fel gyda llawer o'r Beibl, mae hefyd yn siarad gyda ni. Mae sawl artist *reggae*, megis Bob Marley yn defnyddio'r enw Babilon i olygu popeth drwg, neu rywle drwg, neu fel symbol o gaethiwed. Mae yna fodd i ni wneud hynny hefyd.

Mae'r Iddewon a fu'n anufudd i Dduw wedi eu caethgludo i wlad bell - Babilon. *Gosodwch y gair 'DUW' wrth ymyl y llun o Fabilon ond gyda bwllch rhwng y ddau.* Rydym ninnau hefyd sydd wedi bod yn anufudd i Dduw yn cael ein hunain lle nad ydym i fod – tu allan i berthynas gyda Duw. Ein Babilon ni yw ein bod 'heb Dduw', ein bod ni'n byw bywyd hebddo Ef.

Nid dyma sut oedd hi i fod, roeddem i fod i fyw gyda Duw.



Oed 11 - 14

Jeremeia: Llyfr Jeremeia

Mae Duw wedi dewis ein hachub ni yn yr un modd ag y dewisodd Duw achub yr Iddewon. Pam? Oherwydd mae Duw yn ein caru gymaint. Oherwydd bod gan Dduw gymaint o gariad tuag atom, nid yw'n dymuno inni fod y tu allan i berthynas gydag Ef.

Mae Duw'n agor ffordd i ddod â ni yn ôl i berthynas gydag Ef, fel ag y mae'n dod â'r Iddewon yn ôl i Jwda.

Mae Duw yn dod â ni yn ôl ato Ef trwy Iesu Grist. *Gosodwch y groes rhwng y llun o Fabilon a'r gair 'DUW'*. Yn Ioan, mae Iesu'n esbonio mai Ef yw'r ffordd. Y ffordd yn ôl i'r lle yr ydym ni i fod, i'r lle yr oedd Duw am i ni fod, mewn perthynas gyda Ef. Rydym allan o berthynas oherwydd ein hanufudd-dod. Mae Iesu wedi cymryd y gosb ac felly nid oes rhaid i ni gael ein cosbi, a bellach, gallwn fod mewn perthynas â'r Arglwydd.

Sut? Trwy fynd i'r groes. Wrth ddod i'r ddaear, bwriad Iesu Grist oedd mynd i'r groes er mwyn ein galluogi ninnau i ddod ato Ef ac i dderbyn y dyfodol gobeithiol mae adnod un ar ddeg yn addo i ni. Mae Duw am roi dyfodol gobeithiol i ni. Nid yw hyn yn golygu dyfodol hawdd, ond un sy'n llawn o'r sicrwydd fod Duw yna gyda ni. Mae'n anhygoel meddwl bod gan Dduw gynllun ar gyfer bywydau pob un ohonom.

Sut ydw i'n derbyn maddeuant Iesu a'r dyfodol gobeithiol hwn? Trowch i Jeremeia 29 a darllenwch adnod 13 unwaith eto. Trwy ddilyn cyngor adnod tri ar ddeg - wrth i mi chwilio gyda fy holl galon, cawn ddod o hyd i Iesu. Nid wrth i mi feddwl am Dduw weithiau, e.e. mewn angladd neu ar y Sul, nid wrth i mi weddio gweddi fach undonog cyn mynd i'r gwely, ond wrth i mi chwilio gyda'm holl galon, wrth i mi roi fy holl egni i geisio Duw, a dangos fy mod o ddifrif am y peth. Pan dwi'n troi at Dduw am faddeuant ac am ddyfodol gobeithiol, rwy'n gwneud hynny o ddifrif'.

Gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r grŵp:

1. Ydych chi mewn perthynas gyda Duw?
2. Ydych chi wedi chwilio am Dduw gyda'ch holl galon?

Gweddi

Gweddiwch mewn grŵp. Ewch o amgylch y grŵp, un ar y tro, gan weddio rhywbeth syml, megis "Helpa ni i chwilio amdanat â'n holl calonnau. Amen." Anogwch bawb i ddweud 'Amen' ar ddiwedd pob gweddi.





Gweithgaredd Ychwanegol

Er mwyn cael hwyl, cymerwch fap o Gymru a dewiswch lefydd y byddech chi'n hoffi byw a llefydd y byddai'n gas gennych fyw ynddynt. Dydw i ddim am roi enghreifftiau yma oherwydd mae'n siŵr bod pobl o'r trefi hynny yn defnyddio'r llyfra hyn!!!





Atodiad 1


Jeremeia: Llyfr Jeremeia





Atodiad 2 Jeremeia: Llyfr Jeremeia









Atodiad 4

Jeremeia: Llyfr Jeremeia





Mae	fy mhobl	wedi	codi
yn	fy	erbyn.	Eseia.1:2

Daw	Brenhinoedd	o'r	Gogledd
i	oresgyn	Jerwsalem	Jeremeia 1: 15



Atodiad 6

Jeremeia: Llyfr Jeremeia

Yr Hen Destament

Y Testament Newydd

1	Genesis	21	Y Pregethwr	1	Efengyl Mathew	21	Pedr 1
2	Exodus	22	Caniad Solomon	2	Efengyl Marc	22	Pedr 2
3	Lefiticus	23	Eseia	3	Efengyl Luc	23	Ioan 1
4	Numeri	24	Jeremeia	4	Efengyl Ioan	24	Ioan 2
5	Deuteron *	25	Galarnad	5	Actau	25	Ioan 3
6	Josua	26	Eseciel	6	Rhufeiniaid	26	Jwdas
7	Y Barnwyr	27	Daniel	7	Corinthiaid 1	27	Datguddiad
8	Ruth	28	Hosea	8	Corinthiaid 2		
9	Samuel 1	29	Joel	9	Galatiaid		
10	Samuel 2	30	Amos	10	Effesiaid		
11	Brenhinoedd 1	31	Obadeia	11	Philipiaid		
12	Brenhinoedd 2	32	Jona	12	Colosiaid		
13	Cronicl 1	33	Micha	13	Thesaloniaid 1		
14	Cronicl 2	34	Nahum	14	Thesaloniaid 2		
15	Esra	35	Habacuc	15	Timotheus 1		
16	Nehemeia	36	Seffaneia	16	Timotheus 2		
17	Esther	37	Haggai	17	Titus		
18	Job	38	Sechareia	18	Philemon		
19	Y Salmu	39	Malachi	19	Hebreaid		
20	Y Diarhebion			20	Iago		



Sefyllfaoedd – pa mor obeithiol?

- ❖ Mae Mam wedi anghofio rhoi'r cig yn y popty ar gyfer cinio.
- ❖ Mae (*enw pêl-droediwr poblogaidd*) wedi brifo ei ben-glin a chaiff e ddim chwarae byth eto.
- ❖ Mae (*enw un o'r bobl ifanc*) eisiau mynd ar ei gwyliau gyda'i ffrind gorau, ond mae'n costio £400 a does ganddi ddim pres.
- ❖ Mae dosbarth Mr (*enw athro adnabyddus*) i gyd wedi methu'r prawf sillafu.
- ❖ Roeddech chi'n disgwyl cael ffôn symudol ar eich pen-blwydd – ond gawsoch chi ddim!

Jeremeia 32:1

Dyma'r gair a ddaeth at Jeremeia oddi wrth yr ARGLWYDD yn negfed flwyddyn Sedeceia brenin Jwda, a deunawfed flwyddyn Nebuchadnesar.

Y pryd hwnnw yr oedd llu brenin Babilon yn gwarchae ar Jerwsalem, a'r proffwyd Jeremeia wedi ei garcharu yng nghyntedd y gwarchodlu yn llys brenin Jwda.

Adnod 6. Yna dywedodd Jeremeia, "Daeth gair yr ARGLWYDD ataf a dweud, 'Fe ddaw Hanamel, mab dy ewythr Salum, ataf a dweud, "Pryn fy maes yn Anathoth, oherwydd gennyt ti y mae hawl perthynas agosaf i'w brynu."

A daeth Hanamel, fy nghefnder, ataf i gyntedd y gwarchodlu, yn ôl gair yr ARGLWYDD, a dweud wrthyf, 'Pryn, yn awr, fy maes yn Anathoth, yn nhir Benjamin, oherwydd gennyt ti y mae'r hawl i etifeddu a'r hawl i brynu; pryn ef iti.' Gwyddwn wrth hyn mai gair yr ARGLWYDD ydoedd.

Yna prynais y maes yn Anathoth gan fy nghefnder Hanamel, a phwysais iddo yr arian, dau sicl ar bymtheg.

Arwyddais y gweithredoedd, a'u selio a chymryd tystion, a phwyso'r arian mewn cloriannau.

Adnod 41. Fy llawenydd fydd gwneud yn dda iddynt; yn wir â'm holl galon ac â'm holl enaid fe'u plannaf yn y tir hwn.'







"Oherwydd fel hyn y dywed yr ARGLWYDD: 'Megis y dygais ar y bobl hyn yr holl ddrwg mawr hwn, felly y dygaf arnynt yr holl ddaioni a addawaf iddynt.

Fe brynir meysydd yn y wlad hon y dywedwch amdani, "Anghyfannedd yw, heb ddyn nac anifail, ac wedi ei rhoi yng ngafael y Caldeaid."

Prynant feysydd am arian, ac arwyddo'r gweithredoedd, a'u selio a chael tystion, yn nhiriogaeth Benjamin, o amgylch Jerwsalem, yn ninasoedd Jwda, yn ninasoedd y mynydd-dir, yn ninasoedd y Seffela ac yn ninasoedd y Negef. Mi a adferaf eu llwyddiant,' medd yr ARGLWYDD."



Atodiad 8
Jeremeia: Llyfr Jeremeia





Gwasanaeth Teuluol

Jeremeia: Llyfr Jeremeia

Cewch hyd i gyflwyniad PowerPoint ar gyfer y Gwasanaeth ar y GDd.

Defosiwn: gair o groeso, gweddi, emyn/cân

Cyflwyniad 1 - Hanes Jeremeia

Dyma gyfle i'r plant a'r bobl ifanc i gyflwyno hanes Jeremeia gan ddefnyddio deunydd o'r gwersi. Gall y plant ddarllen yr hanesion, canu, adrodd y rhigwm neu ddangos y gwaith crefft. Os yn bosibl, dylech geisio cyflwyno'r tair rhan o'r hanes sydd wedi cael sylw yn ystod y gwersi.

1. Duw yn galw Jeremeia
2. Y Brenin Jehoiacim yn dinistrio Gair Duw
3. Jeremeia mewn trafferth

Cyflwyniad 2 – Mae'n anobeithiol!

Yn yr adran hon, byddwn yn ystyried y sefyllfa anobeithiol yr oedd Jeremeia a phobl Duw yn ei hwynebu, wrth i fyddin y Babiloniaid agosáu.

Bydd angen y rhestr o sefyllfaoedd o Atodiad 7, llun Jeremeia o Atodiad 1, llun y crochan o'r GDd.

1. Darllenwch drwy'r rhestr o sefyllfaoedd, gan oedi ar ôl pob sefyllfa i ofyn i'r gynulleidfa pa mor anobeithiol ydyw. Gofynnwch iddynt godi bysedd i ddangos sgôr o 1 i 10, gyda rhif 1 yn golygu 'hollol anobeithiol', a rhif 10 yn 'obeithiol iawn'. Efallai yr hoffech wahodd unigolion i egluro pam eu bod wedi dewis eu sgôr ar gyfer rhai o'r sefyllfaoedd. Ar ôl gorffen y rhestr, pwysleiswch ein bod yn wynebu sefyllfaoedd amrywiol iawn o ddydd i ddydd. Mae rhai problemau ac anawsterau i'w gweld yn ddigon hawdd i'w datrys, ond mae eraill yn edrych yn anobeithiol.

2. Hanes Jeremeia

Dangoswch y llun o Jeremeia a gofynnwch i'r gynulleidfa am resymau Jeremeia am fod yn anobeithiol; e.e. roedd y brenin Jehoiacim wedi llosgi'r sgrôl a oedd yn cynnwys neges Duw; 'doedd y Brenin ddim yn fodlon gwrandao ar Dduw; cafodd Jeremeia ei daflu i bydew am ei fod yn parhau i rybuddio'r bobl am berygl gwrthod gwrandao.

3. Hanes pobl Dduw

Dangoswch lun y crochan. Ydy'r plant yn cofio ystyr y crochan? *Roedd y crochan yng ngweledigaeth Jeremeia wedi gogwyddo i ffwrdd o'r Gogledd: rhybuddiodd Duw y byddai byddin yn dod o'r Gogledd i goncro Jerwsalem a'i dinistrio, ac yn cymryd llawer o'r trigolion i wlad Babilon fel caethweision.* Roedd y Brenin a phobl Dduw wedi gwrthod gwrandao ar neges Jeremeia, a bellach, roedd byddin Babilon ar y ffordd i goncro Jerwsalem. Doedd gan fyddin Jwda ddim gobaith yn erbyn byddin fawr gref y Babiloniaid. Roedd Duw wedi rhybuddio y byddai byddin y Babiloniaid yn dinistrio Jerwsalem, ac yn lladd pwy bynnag oedd yno. Yr unig ffordd i osgoi cael eich lladd oedd ildio iddynt.

Gwahoddwch y gynulleidfa i ddangos, trwy godi bysedd (unwaith eto), gan ofyn yn gyntaf pa mor anobeithiol oedd sefyllfa Jeremeia, ac yna, sefyllfa pobl Dduw.

Cyflwyniad 3 – Gobaith mewn cae!

❖ Clip o'r ffilm '*Revenge of the Sith*' (opsiynol)

Ar ôl gwyllo'r ffilm, gofynnwch yn gyntaf a oes rhywun wedi gweld y ffilm.



Gwasanaeth Teuluol Jeremeia: Llyfr Jeremeia

Os oes rhywun wedi gwyllo'r ffilm cewch geisio atebion i'r cwestiynau canlynol, ond os nad oes neb wedi gweld y ffilm, bydd rhaid rhoi esboniad o gyd-destun y darn.

1. Beth sydd newydd ddigwydd? *Roedd Anakin wedi ildio i'r demtasiwn i ymuno â'r Ochr Dywyll (the Dark Side).*
2. Beth sydd wedi digwydd i ran fwyaf o farchogion y Jedi (*Jedi Knights*)? *Maen nhw wedi cael eu lladd a'r nifer bychan sydd ar ôl yn fyw, wedi ffoi.*
3. Beth sydd wedi digwydd i'r plant a oedd yn cael eu hyfforddi i fod yn farchogion y Jedi? *Maen nhw hefyd wedi cael eu lladd.*
4. Pwy sy'n llywodraethu? *Y 'Sith' neu'r Ochr Dywyll.*
5. Beth sy'n digwydd ar ddiwedd y ffilm? *Mae'r Jedi's sydd ar ôl yn dod at ei gilydd ac o'r diwedd yn concro'r Ochr Dywyll.*

Er bod pethau'n edrych yn ddu iawn, mae 'na ddiwedd hapus i'r stori hon. Tybed oes diwedd hapus i bobl Dduw?

❖ Hanes Jeremeia'n prynu'r cae

Darllenwch hanes Jeremeia yn prynu cae yng nghanol ymosodiad byddin Babilon, sydd ar gael yn Atodiad 7.

Dydy bobl ddim fel arfer eisiau prynu tai neu gaeau mewn ardal rhyfel! Pam ddywedodd Duw wrth Jeremeia i wneud peth mor rhyfedd?

Mae hyn yn arwydd i bobl Dduw bod dyddiau gwell ar ddod.

Darllenwch Jeremeia 32, adnod 36b-42. Mae Duw yn addo dod â'r bobl yn ôl i'w gwlad rhyw ddydd. Bydd Duw yn bendithio'r bobl gyda llawer o bethau da, gan gynnwys caeau. Mae Duw yn addo helpu'r bobl i fyw bywydau da, yn gwneud beth sy'n ei blesio, unwaith eto.

Pa mor obeithiol mae pethau'n edrych nawr ar bobl Dduw?

Cyflwyniad 4 - Gobaith gan yr Iesu

Bydd angen darnau o bapur gwyrdd a ffelt pen, 'blu tac' a rhywbeth i osod y darnau arno, e.e. bwrdd gwyn/wal. Ioan 10, adnodau 27-30, wedi'i hysgrifennu'n fawr neu ar y PowerPoint. Hefyd, y 6 amlinelliad dafad o Atodiad 8, wedi'u torri allan yn barod.

Gofynnwch i'r gynulleidfa am eu syniadau am bethau y mae pobl yn poeni amdanynt, e.e. cael car smart, dillad newydd, swydd gorau posibl, gwyliau tramor, cael iechyd da, cael addysg dda i'w plant ayyb. Ysgrifennwch bob un ar ddarn o bapur gwyrdd a'u gosod ar siâp 'cae'.

Dangoswch yr adnodau a'u darllen.

Beth mae Iesu'n dweud yma?

- ❖ Mae pobl Iesu'n debyg i ddefaid, yn gwrando arno ac yn ei ddilyn
- ❖ Mae pobl Iesu'n cael byw am byth
- ❖ Mae pobl Iesu'n ddiogel yn ei ddwylo
- ❖ Mae Duw wedi rhoi'r bobl yma i Iesu
- ❖ Mae Duw a Iesu'n un

Wrth i Jeremeia brynu'r cae, yr oedd Duw yn dangos i'w bobl Ei fod yn parhau i'w caru a bod gobaith i'w gael iddynt.



Gwasanaeth Teuluol Jeremeia: Llyfr Jeremeia

Dyma mae Iesu'n ei ddweud wrthym heddiw, (*gosodwch y defaid ar y cae wrth ichi ddweud y frawddeg nesaf*) - 'does dim angen i chi boeni am ddim byd, oherwydd dwi'n gallu edrych ar eich hôl a rhoi'r peth pwysicaf oll i chi - bywyd tragwyddol.

Gwahoddwch bawb i ddarllen yr adnod sydd i'w gweld ar y defaid.

Efallai ein bod yn poeni am bob math o bethau heddiw, ond mae Iesu'n dweud wrthym, os ydym yn perthyn iddo ef, rydym yn ddiogel yn ei ddwylo, a beth bynnag sy'n digwydd inni, mae'r dyfodol yn obeithiol iawn, oherwydd mae'n addo y cawn fod gydag ef am byth!

Gweddïau

Beth am roi amlinelliad dafad i'r plant a'u gwahodd i ysgrifennu gweddi, ac yna llenwi'r cae gyda'r 'defaid' hyn? Gellir annog y gynulleidfa i roi eu pryderon i Dduw, pryderon personol neu bryderon dros bobl eraill. Neu, gellir eu hannog i ysgrifennu gweddïau o ddiolch i Dduw am ei ofal sicr a'r gobaith tragwyddol sydd gennym.

Neu,

Gweddïwch dros bobl anghenus yn eich cynulleidfa, eich ardal leol, ac yn fyd-eang. Gweddïwch dros y rhai sy'n llawn anobaith oherwydd eu hamgylchiadau. Gweddïwch am gyfleoedd i rannu'r newyddion da bod gobaith i bawb sy'n dod at Iesu Grist, y Gwaredwr.

Emynau/caneuon

Caneuon Ffydd: 408, 414, 416, 422, 555,562, 564

Tyrd i Ddathlu: 1, 7,8, 10,18,

Y Cyntaf a'r Olaf:4, 5,